

# 2021/22

# ADRODDIAD HUNANASESU

## Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ac Amcanion Llesiant

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad gan Arweinydd y Cyngor | 2 |
| Crynodeb o Berfformiad 2021-22 | 3 |
| Cyfleoedd i Wella | 7 |
| Beth yw Hunanasesu? | 9 |
| Sut gwnaethom gynnal yr Hunanasesiad | 10 |
| Asesiad Seiliedig ar Dystiolaeth | 11 |
| Dysgu o Ymgynghori ac Ymgysylltu | 11 |
| Rheoli ein Perfformiad | 12 |
| Adolygiad o'r Amcanion Llesiant 2021/22 | 13 |
| Gwella Canlyniadau | 14 |
| Cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol | 23 |
| Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | 25 |
| Amcanion Llesiant Newydd ar gyfer 2022/23 | 26 |
| Ein Perfformiad | 27 |


Caru·Love Ceredigion

# CYFLWYNIAD

## Gan Arweinydd a Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion

Croeso i Adroddiad Hunanasesu cyntaf Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu ein perfformiad a'n cynnydd tuag at gyflawni ein Hamcanion Llesiant yn 2021/22.

Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 drefn rheoli perfformiad newydd ar gyfer awdurdodau lleol yn seiliedig ar Hunanasesiad.

Yn syml, mae hunanasesu yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn hunanymwybodol o sut y maent yn perfformio, lle mae angen iddynt wella a sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy yn y dyfodol. Mae'n broses barhaus o ddysgu a chyflawni gwelliannau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Nid yw'r egwyddorion hyn yn newydd i Gyngor Sir Ceredigion. Rydym wedi bod yn defnyddio hunanasesu ers tro fel arf i fyfyrio ar sut yr ydym yn gwneud pethau nawr, a sut y gallwn gyflawni gwelliannau neu ddarparu mwy o effeithlonrwydd. Rhai enghreifftiau o hyn yw'r Model Gydol Oes arloesol sy'n trawsnewid y ddarpariaeth o ofal cymdeithasol yn y Sir, y defnydd arloesol o'n hadnoddau yn ystod COVID-19 i ddarparu ymateb effeithiol i'r pandemig a welodd Ceredigion yn parhau i fod yn un o'r rhannau mwyaf diogel o Gymru, a thrawsnewid y ffordd yr ydym yn rhyngweithio â'n cwsmeriaid trwy ein canolfan gyswllt "CLIC" i ddarparu profiad gwell i gwsmeriaid.

Fe wnaethom gynnal ein Hunanasesiad yn ystod haf 2022, gan edrych ar ystod eang o dystiolaeth, adroddiadau rheoleiddio ac adborth helaeth o'r ymgynghoriad. Mae'n cadarnhau bod Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i berfformio'n uwch na'i statws ac yn gwneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael iddo, er gwaethaf yr heriau a wynebwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf megis toriadau sylweddol yn y gyllideb a phandemig COVID-19.

Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella bob amser ac mae Hunanasesu wedi ein helpu ni i nodi camau gweithredu allweddol dros y flwyddyn nesaf a fydd yn helpu i ysgogi canlyniadau gwell i'r sir a'i dinasyddion. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad pellach gyda dinasyddion, busnesau, Staff y Cyngor ac Undebau Llafur dros y misoedd nesaf i gasglu barn bellach ar sut y gallwn wella perfformiad ac edrychwn ymlaen at glywed eich barn.

Rhan allweddol o adolygu ein perfformiad yw'r cynnydd o ran cyflawni ein Hamcanion Llesiant yn 2021/22. Roedd yr Amcanion hyn yn canolbwyntio ar gefnogi ein dinasyddion a'n busnesau yn ystod pandemig COVID-19. Er gwaethaf yr heriau yr ydym wedi'u hwynebu, mae cynnydd wedi bod yn dda ac mae'r adroddiad hwn yn amlygu nifer o gyflawniadau allweddol ar draws pob un o'r wyth Amcan.

Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, rydym yn y broses o adolygu ein Hamcanion Llesiant i adlewyrchu uchelgeisiau'r weinyddiaeth newydd, y blaenoriaethau ar gyfer y Sir fel y nodwyd yn Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion, a barn ein dinasyddion. Bydd Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer 2022-27 yn nodi ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol newydd a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn llawn gwybodaeth ac yn ffordd ddefnyddiol o gadw mewn cysylltiad ar ein taith gwella perfformiad.



**Cynghorydd Bryan Davies**

Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion



**Eifion Evans**

Prif Weithredwr Cyngor Sir Cer-edigion

# CRYNODEB O BERFFORMIAD 2021-22

Rydym wedi dysgu llawer wrth gynhyrchu ein Adroddiad Hunanasesu 2021/22. Mae’r ymarfer wedi dod ag amrywiaeth eang o dystiolaeth ynghyd i asesu ein perfformiad ac adolygu ein Hamcanion Llesiant. Mae wedi amlygu a chanolbwyntio ein sylw ar yr heriau sy’n ein hwynebu. Mae'r rhain yn bwysig oherwydd mae angen i ni barhau i addasu i gwrdd â'r heriau hyn er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n gynaliadwy a hefyd pharhau i nodi cyfleoedd i wella lefelau perfformiad, nodi arbedion effeithlonrwydd, neu'r ddau.

Mae yna saith thema yr ydym yn asesu ein hunain yn eu herbyn, sef:

- Arfer ein swyddogaethau yn effeithiol
- Defnyddio ein hadnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol
- Sicrhau bod ein llywodraethu yn effeithiol
- Arloesedd a chreadigrwydd
- Cydweithio
- Ymglymiad
- Rheoli Risg

Mae'r rhain yn deillio o gyfuniad o'r Canllawiau Statudol ar y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghyd â'r Egwyddor Datblygu Gynaliadwy. Maent yn adlewyrchu saith gweithgaredd craidd cyrff cyhoeddus fel y diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gyfer pob thema rydym yn asesu os oes gennym gynlluniau ac amcanion ar waith, a yw’r cynlluniau a’r amcanion hynny’n cael eu cyflawni ac os ydynt yn gynaliadwy dros y tymor hwy.

Mae crynodeb o'r canfyddiadau a'r sgorau o bob un wedi’i dangos ar y tudalennau dilynol. Mae’r system sgorio yn cyd-fynd â Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor er cysondeb. Mae'n darparu graddfa Coch-Ambr-Gwyrdd i ddangos lle mae perfformiad yn dda a lle mae angen cymryd camau pellach.

**Cyflawni Ein Swyddogaethau'n Effeithiol**

Mae gan y Cyngor lawer o strategaethau ar waith i gefnogi ac i helpu cyflawni Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Gydol Oed a Llesiant, y Strategaeth Economaidd a'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi. Mae cynnydd wrth gyflwyno'r strategaethau hyn hefyd wedi bod yn dda. Un enghraifft allweddol o 2021/22 yw llofnodi Bargen Twf Canolbarth Cymru i ddod â buddsoddiad cyfun o £110m i ranbarth Ganolbarth Cymru.


Mae gosod blaenoriaethau hefyd wedi'i ystyried fel gwaith cryf a chadarnhaol gyda gweinyddiaeth newydd y Cyngor ac mae hyn wedi bod ar waith i ddatblygu’r Strategaeth Gorfforaethol newydd a’r Amcanion Llesiant Corfforaethol ar gyfer 2022-27.


Mae gan y Cyngor weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, a'r asesiad cyffredinol yw bod y strategaethau ar waith yn gynaliadwy ac yn ystyried y cyd-destun tymor byr, canolig a hir.

Fodd bynnag, fel pob awdurdod lleol, mae heriau i gyflawni’r uchelgeisiau hyn. Mae gallu ac adnoddau cyfyngedig ar gael, tra bod y galw gan gwsmeriaid yn parhau i dyfu. Er bod gan y Cyngor hanes o arloesi a chreadigrwydd wrth ddarparu gwasanaethau a cheisio ffyrdd newydd o weithio, cydnabyddir bod rheoli disgwyliadau ar wasanaethau hefyd yn bwysig wrth i ni symud ymlaen. Rydym wedi dysgu o brofiad blaenorol gyda phrosiectau eraill bod datblygu Strategaeth Gyfathrebu yn un ffordd o reoli hyn a byddwn yn anelu at roi hyn ar waith dros y flwyddyn nesaf.

Ar y cyfan, mae wedi bod yn ddechrau cadarnhaol i’n taith berfformiad ar ôl COVID-19 ers ailddechrau rheoli perfformiad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud o ran cryfhau rheoli

## CRYNODEB O SGORIO YN ÔL THEMA



perfformiad ac adnabod y manteision a all ddod yn sgil hynny. Y cam cyntaf yw dod â Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd ynghyd sy'n nodi'r dull gweithredu cyffredinol a'r prosesau safonol ar gyfer rheoli perfformiad yng Ngheredigion, gan gynnwys y broses Hunanasesu newydd.

Cydnabyddir hefyd fod angen gwella mynediad at ddata meincnodi yn genedlaethol. Gallai'r diffyg data presennol olygu colli cyfleoedd i ddysgu o arfer gorau. Rydym felly yn cymryd rhan weithredol mewn darn o waith cydweithredol gyda Data Cymru a phob un o'r 22 o brif gynghorau ledled y wlad i ddatblygu set newydd o fesurau perfformiad cenedlaethol i gefnogi gofynion perfformiad awdurdodau lleol. Bydd y gweithredu tymor hwy hwn yn amhrisiadwy o ran helpu i gyfathrebu perfformiad ac mae'n cyd-fynd â'n nod hirdymor o fod yn fwy seiliedig ar berfformiad a data.

Rydym yn cydnabod bod angen inni fonitro effaith heriau sy'n dod i'r amlwg er mwyn deall a lliniaru'r effeithiau. Mae'r heriau hyn yn cynnwys yr argyfwng costau byw, tlodi, y rhyfel yn y Wcráin a chroesawu ffoaduriaid, newidiadau i Brotocol Gogledd Iwerddon ac effeithiau tymor hwy COVID-19.

**Defnyddio ein Hadnoddau yn Economaidd, Effeithlon ac Effeithiol**

Mae gan y Cyngor strategaethau ar waith ar gyfer gweithgareddau craidd y Cyngor - cynllunio'r gweithlu, rheolaeth ariannol, caffael a rheoli asedau. Asesir bod y sefyllfa gyffredinol yn dda yn enwedig mewn perthynas â rheolaeth ariannol. Mae adroddiadau rheoleiddio yn gadarnhaol, er enghraifft, rhoddodd Archwilio Cymru farn ddiamod ar gyfrifon y Cyngor.

Mae hydwythdedd ariannol y Cyngor yn gryfder, yn enwedig wrth asesu cynaliadwyedd gwasanaethau. Mae gan y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar waith hefyd a darparwyd cyllideb gytbwys yn 2021/22. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod angen gwaith pellach i uchafu gwariant ac effaith y rhaglen cyfalaf, ac rydym yn fwriadau datblygu cynllun dros y flwyddyn nesaf.

Mae ein dysgu wedi dangos bod angen inni sicrhau ein bod yn diweddaru strategaethau allweddol dros y deuddeg mis nesaf. Bydd hyn yn cynnwys y Cynllun Rheoli Asedau sy'n nodi sut rydym yn cynnal ein portffolio eiddo. Mae hyn yn bwysig wrth symud ymlaen i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hasedau ffisegol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor wedi gwneud defnydd da ac arloesol o'i adeiladau i gefnogi ffyrdd newydd o weithio, a bydd y cynllun yn helpu i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer yr adeiladau hynny nad oes eu hangen mwyach a'u hailddefnyddio at ddibenion eraill neu ddarparu gwasanaethau gwell.

Mae gweithredai craffu hefyd wedi'i chryfhau yn ddiweddar trwy corfforaetholi y proses craffu, ond bydd hyn yn cael ei diweddaru i gefnogi busnesau lleol a'r economi lleol, ac i sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau ariannol.


Yr her allweddol arall yw diweddaru'r Cynllun Gweithlu. Rydym yn cydnabod yr heriau o ran recriwtio a chadw a brofir ledled Cymru gyfan. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae recriwtio i swyddi allweddol yn hanfodol i gyflawni ein huchelgeisiau.

Yn dilyn pandemig COVID-19, mae'r Cyngor wedi bod yn adeiladu ar ei brofiadau i newid y ffordd y mae'n gweithio drwy fodel 'gweithio hybrid' newydd, sy'n darparu ffyrdd mwy ystwyth a symudol o weithio i staff, profiad gwell i gwsmeriaid ac sy'n hefyd yn gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn ariannol.

O ganlyniad, rydym yn bwriadu adolygu a diweddaru ein Cynllun Gweithlu i sicrhau ein bod yn datblygu ac yn cefnogi gweithlu ystwyth ond effeithiol i gefnogi anghenion y dyfodol.

A yw'r Cyngor yn gweithio yn gynhyrchiol gyda'i rheoleiddwyr allanol ac yn dangos cydymffurfiad da?

A oes gan y Cyngor god lleol cynhwysfawr a fframwaith llywodraethu ar waith ar gyfer cynnal llywodraethu corfforaethol y sefydliad?




Pa mor effeithiol y caiff y cod a'r fframwaith llywodraethu eu cymhwyso a'u harsylwi?

**Sicrhau bod ein Llywodraethu yn effeithiol**

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gadarn ac yn cefnogi gwaith y Cyngor o ran gwella canlyniadau i drigolion. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, y Fframwaith Llywodraethu a'r Cod Llywodraethu Lleol yn eu lle ac mae'r berthynas â rheoleiddiadau yn gynhyrchiol.

Mae adroddiadau rheoleiddiadau mewnol ac allanol yn tystio i hyn - mae'r adolygiad diweddaraf o Adolygiad Llywodraethu'r Cyngor a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2022 yn rhoi sicrwydd bod y gweithdrefnau'n gadarn, â ffocws ac yn effeithiol. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.

**Allwedd i'r Asesiad**

- **Da** - ystyrir ei fod yn dda ar y cyfan ac yn bodloni arfer gorau nid oes angen unrhyw gamau pellach
- **Derbyniol** - efallai y bydd angen addasiadau mân
- **Boddhaol** - Angen gweithredu (cyn diwedd blwyddyn 9-12 mis)
- **Islaw boddhaol** - angen gweithredu brys (o fewn 3-6 mis)
- **Annerbyniol** - Angen gweithredu ar unwaith

# CRYNODEB O BERFFORMIAD 2021-22

**Arloesedd a Chreadigrwydd Hirdymor**

Un o gryfderau’r Cyngor yw ei arloesedd a chreadigrwydd hirdymor. Mae gan y Cyngor hanes da o groesawu ffyrdd newydd o weithio a nodi ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau i ddarparu profiad gwell i gwsmeriaid, arbedion effeithlonrwydd, neu'r ddau.

Mae llawer o enghreifftiau o hyn, a’r proffil uchaf ohonynt yw’r Rhaglen Gydol Oed a Llesiant sy’n trawsnewid gofal cymdeithasol yng Ngheredigion. Mae hyn mewn ymateb i ddemograffeg newidiol y Sir sydd wedi gweld cynnydd yn y galw am rai gwasanaethau a mwy o bwysau ariannol ar wasanaethau. Mae darparu cefnogaeth i bob oed ac angen yn her sylweddol i'r Cyngor gydag adnoddau cyfyngedig.

Mae Rhaglen Gydol Oed a Llesiant y Cyngor wedi symud ymlaen yn dda, a byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â thrawsnewid sut y gellir cefnogi iechyd, lles a diogelwch pobl yng Ngheredigion. Mae’r rhaglen yn gwella canlyniadau drwy wneud y mwyaf o annibyniaeth pobl a’u galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain ac yn eu cymuned eu hunain lle bynnag y bo modd.

Mae llawer o enghreifftiau o arloesi o 2021/22, yn fwyaf nodedig y ffordd yr ymatebodd y Cyngor i bandemig COVID-19, a oedd yn cynnwys y defnydd o dechnoleg newydd i gefnogi staff i weithio gartref a pharhau i ddarparu gwasanaethau, sefydlu'r Gwasanaeth Profi Olrhain a Diogelu sef y cyntaf o’i fath yng Nghymru, a’r gweithdrefnau gorchymyn brys a ddarparodd fecanwaith effeithiol ar gyfer rheoli’r sefydliad yn ystod y pandemig.

Yn fwy diweddar mae’r gwaith creadigol ac arloesol i ail-bwrpasu canolfannau hamdden y Cyngor drwy symud tuag at Ganolfannau Llesiant ar draws y Sir. Bydd y Canolfannau yn gwella'r cynnig craidd o ddarpariaeth hamdden gyda mannau cyfarfod, ymgynghori a thriniaeth i gyfrannu at wella lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol trigolion y Sir.

Mae ailstrwythuro mawr y Cyngor o bob maes gwasanaeth yn enghraifft arall o groesawu arloesedd a chreadigrwydd. Mae wedi cymryd nifer o flynyddoedd i gwblhau'r broses o ddarparu strwythur sy'n cefnogi anghenion y sefydliad wrth symud ymlaen ac sydd hefyd wedi arwain at arbedion o £50m ers 2012. Cydnabuwyd, fodd bynnag, y gallai'r Cyngor wneud mwy i hyrwyddo trawsnewid y Cyngor a hysbysu manteision y gweithgareddau yma i’w cwsmeriaid a’i rhanddeiliaid.

**Cydweithio**

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn rhagweithiol o ran ymgysylltu â phartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ceir enghreifftiau da lle mae’r cydweithio hwn yn gwella canlyniadau megis drwy Dyfu Canolbarth Cymru, Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru, yr ymateb i COVID-19 a chyflwyno datblygiad tai gofal ychwanegol arloesol Maes y Môr yn Nhrefechan gyda Chymdeithas Tai Wales & West.

Fodd bynnag, mae cyfeiriad strategol tuag at ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r partneriaethau hynny sy'n fuddiol i bobl a chymunedau Ceredigion, lle ceir manteision amlwg. Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r partneriaethau hyn ac yn herio gwerth y trefniant os na, gan ddilyn trefniadau amgen lle bo angen. Cydnabyddir bod y dull rhagweithiol hwn o asesu gwerth gweithio ar y cyd yn hanfodol i sicrhau'r effaith fwyaf posibl o gydweithio a gwella canlyniadau i bobl leol.


**Ymglymiad**

Mae gan y Cyngor Strategaeth Ymgysylltu ar waith ond mae rhai digwyddiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi’u peryglu gan COVID-19, sydd wedi effeithio ar ein gallu i wneud cymaint o ymgysylltu ac ymgynghori ag yr hoffem.

## CRYNODEB O SGORIO YN ÔL THEMA


A yw'r Cyngor yn croesawu arloesedd a chreadigrwydd yn ei weithgareddau ac yn gweithredu trawsnewid?

Pa mor effeithiol fu prosiectau trawsnewid y Cyngor o ran nodi a gweithredu creadigrwydd ac arloesedd ar draws y sefydliad?




A yw'r Cyngor yn ymgysylltu'n rhagweithiol â phartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol?

Pa mor effeithiol yw'r partneriaethau y mae'r Cyngor wedi buddsoddi ynddynt i gyflawni ei nodau a'i amcanion?



Ceir rhai enghreifftiau da o ymgysylltu a lle defnyddiwyd y canlyniadau i ysgogi newidiadau. Er enghraifft, cynhyrchodd ymgynghoriad ar y defnydd o’r Parthau Diogel yn ystod y pandemig COVID-19 dros 2,000 o ymatebion a gwnaed newidiadau i rai o’r cynlluniau mewn ymateb.

Roedd Strategaeth Economaidd newydd Ceredigion, sy'n nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd tuag at gyflawni twf economaidd cryf, cynaliadwy a mwy gwydn yn cynnwys ymgynghori wedi'i dargedu â dinasyddion, busnesau ac yn benodol pobl iau sy'n aml yn cael eu tangynrychioli. Cynhyrchodd y rhain rai canlyniadau gwerthfawr a ddefnyddiwyd gennym i helpu i lunio'r fersiwn derfynol o'r Strategaeth sydd bellach wedi'i chymeradwyo ac yn y broses o gael ei gweithredu.

Amlygodd canfyddiadau’r Arolwg Llesiant Rhanbarthol yn ystod 2021, y ffordd y mae rhai heriau wedi dod i’r amlwg yn ystod pandemig COVID-19, megis mynd i’r afael â thlodi, fforddiadwyedd tai a chysylltedd digidol. Mae hyn wedi bod yn allweddol wrth helpu i ddatblygu’r Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd.

Mae ymgysylltu ac ymgynghori yn dda mewn rhai meysydd, ond ceir pocedi lle mae angen rhagor o waith. Er enghraifft, cymysg yw ansawdd Asesiadau Effaith Integredig.

Fodd bynnag, ein cam cyntaf i gymryd ar unwaith yw diweddaru’r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad i ychwanegu’r elfennau newydd o wneud penderfyniadau a chyfranogiad sy’n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd y Strategaeth newydd yn gosod safon gyffredin ar draws yr awdurdod a bydd yn helpu i sicrhau bod gan bob cymuned yng Ngheredigion lais a byddwn yn mynd ati i geisio barn a phrofiadau byw'r grwpiau hynny na chlywir eu lleisiau yn aml.

**Rheoli Risg**

Mae rheolaeth risg yn y Cyngor wedi bod yn datblygu'n dda dros y tair blynedd diwethaf ac fe'i hystyrir yn broses gadarn. Mae cyflawni’r 44 o gamau lliniaru yn dda ac mae Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor yn ddogfen ‘fyw’ ac esblygol wrth i risgiau newid a risgiau newydd ddod i’r amlwg.

Mae gennym berthynas dda gyda'n hyswirwyr, cynhaliwyd hyfforddiant gyda'r holl reolwyr a chanfuwyd bod yr adolygiad diwethaf o'r Polisi a Fframwaith Rheoli Risg yn foddhaol.

Y cam nesaf yn ein taith rheoli risg yw cynnal adolygiad tair blynedd o'r broses yn chwarter olaf 2022/23. Mae hyn wedi'i gynnwys yn ein cynllun gweithredu ac mae'n cynnwys edrych ar arfer gorau i sicrhau bod trefniadau'n parhau'n gyfredol ac yn addas i'r diben.


**Y Cynllun Gweithredu**


Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, rydym wedi nodi nifer o gyfleoedd i wella. Drwy ymgynghori â gwasanaethau'r Cyngor ac Aelodau etholedig, mae'r camau y bwriadwn eu cymryd mewn ymateb i'r dysgu hwn wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu trosodd ac mewn cynlluniau busnesau gwasanaethau ble maent yn fwy gweithredol mewn natur.

Bydd y rhan fwyaf o’r camau gweithredu hyn yn cael eu cyflawni dros y deuddeg mis nesaf a bydd cynnydd yn cael ei adrodd yn Adroddiad Hunanasesu 2022/23. Mae rhai yn gamau gweithredu tymor hwy a byddant yn ymestyn y tu hwnt i'r flwyddyn nesaf, ond bydd pob cam yn cael eu monitro hyd at eu cwblhau.

Mae 15 o gamau gweithredu yr ydym yn bwriadu eu cymryd. Rydym wedi blaenoriaethu’r camau gweithredu er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer gwaith yn y dyfodol ar draws y saith thema drwy sicrhau bod conglfeini hanfodol ein trywyddu ymholi allweddol yn cael eu bodloni cyn datblygu ymhellach. Rydym eisoes wedi nodi rhestr o gamau gweithredu sy'n dod i'r amlwg y byddwn yn eu hailasesu yn ystod y flwyddyn i ddod ac yn symud i'r cynllun gweithredu byw os a phan fo hynny'n briodol.

## CRYNODEB O SGORIO YN ÔL THEMA



# CYFLEOEDD I WELLA - EIN CYNLLUN GWEITHREDU

| Gweithred | Disgrifiad | Amserlen | Rhesymeg/Sut bydd hyn yn gwella canlyniadau |
|---|---|---|---|
| **Arfer ei swyddogaethau'n effeithiol - pa mor dda y mae'r Cyngor yn cyflawni canlyniadau gwell i bobl yn yr ardal leol?** | | | |
| **Cyflawni Cynllun Gweithlu i sicrhau bod gan y Cyngor weithlu cynaliadwy a chymwys** | Diweddaru Cynllun y Gweithlu i fynd i'r afael â materion allweddol gan gynnwys recriwtio, cadw a chynllunio olyniaeth i sicrhau lefelau staffio sefydlog, gweithlu cynaliadwy a bod swyddi gwag yn cael eu llenwi â staff â chymwysterau priodol. Bydd y Cynllun Gweithlu yn cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer 2022-27 | **2022/23** | • Sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu llenwi gan staff sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol i ddarparu profiad cwsmer o ansawdd uchel a lefel gwasanaeth<br>• Sicrhau bod capasiti yn bodoli mewn gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau o safon<br>• Sicrhau cynaladwyedd gwasanaethau dros y tymor hwy<br>• Caniatáu i ni nodi ac ymateb i anghenion newidiol cwsmeriaid<br>• Gwella recriwtio a chadw gweithwyr<br>• Gwella cynhyrchiant ac ansawdd gwasanaeth |
| **Defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol - Pa mor dda y mae'r Cyngor yn defnyddio ac yn rheoli ei adnoddau? A yw'n sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd?** | | | |
| **Cyflawni Strategaeth Rheoli Asedau sy'n rhoi ffyrdd newydd o weithio ar waith i staff Cyngor Sir Ceredigion ac sy'n gwella profiad y cwsmer** | Diweddaru'r Strategaeth Rheoli Asedau i adlewyrchu materion cyfredol, yn enwedig cefnogi ffyrdd newydd o weithio a manteisio ar y cyfleoedd sy'n bodoli ar ôl COVID-19 i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel | **2023/24** | • Darparu strategaeth ddiweddaredig a hirdymor i reoli asedau ffisegol y Cyngor<br>• Sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o asedau'r cyngor (cronfeydd, tir, adeiladau, staff a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu)<br>• Cefnogi ffyrdd newydd o weithio ar ôl COVID-19 gan gynnwys rhesymoli asedau<br>• Darparu strategaeth i ryddhau arbedion effeithlonrwydd a ffrydiau incwm newydd posibl<br>• Sicrhau bod dull y Cyngor o reoli asedau yn addas at y diben a bod gwasanaethau'n gynaliadwy<br>• Cefnogi gwasanaethau mwy cydgysylltiedig o ansawdd uchel |
| **Sicrhau bod gwariant cyfalaf yn cael ei uchafu a'i ddefnyddio** | Datblygu system fonitro i alluogi'r Cyngor i wneud defnydd llawn o'i adnoddau cyfalaf a chynyddu cyfran y gwariant cyfalaf ym mhob blwyddyn | **2023/24** | • Sicrhau bod Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn cael ei darparu a gwariant yn cael ei uchafu<br>• Yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar brosiectau cyfalaf<br>• Cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth ac Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor<br>• Yn cefnogi lleihau costau hirdymor a chynnydd mewn cynhyrchiant<br>• Ynghyd â'r gyllideb refeniw yn darparu'r adnoddau i gwrdd â chyflawni cynlluniau busnes y gwasanaethau |

| Gweithred | Disgrifiad | Amserlen | Rhesymeg/Sut bydd hyn yn gwella canlyniadau |
|---|---|---|---|
| **Cefnogi busnesau lleol a'r economi leol drwy roi'r Strategaeth Gaffael wedi'i diweddaru ar waith** | Diweddaru Strategaeth Gaffael y Cyngor i gefnogi busnesau lleol a'r economi leol, ac i sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau ariannol | **2023/24** | • Sicrhau bod arferion caffael yn gyfredol ac yn addas i'r diben<br>• Helpu i gyflawni gwerth am arian drwy sicrhau bod y Cyngor yn gwario ei adnoddau ariannol yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol<br>• Cefnogi nodi arbedion effeithlonrwydd a dileu gwastraff<br>• Cyflawni arbedion drwy wneud y mwyaf o'r arbedion y gellir eu cyflawni drwy fwy o allu i brynu Fframweithiau Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol<br>• Cynnal safonau moesegol uchel o ran buddsoddi a phrynu<br>• Gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at ddatblygu cynaliadwy trwy gaffael atebion cynaliadwy<br>• Cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth ac Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor<br>• Yn cefnogi busnesau lleol, cadwyni cyflenwi a datblygiad yr economi leol |
| **Cyflawni Cam 2 y Rhaglen Llesiant Trwy Oed i drawsnewid gofal cymdeithasol yng Ngheredigion** | Monitro ac adolygu cynnydd y Rhaglen Gydol Oed a Llesiant er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau a fydd yn cyflawni canlyniadau'r rhaglen ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion | **2022/23** | • Rheoli'r cynnydd yn y galw a'r pwysau ariannol ar wasanaethau i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol<br>• Sicrhau bod pobl yn cael y lefel a'r math cywir o gymorth ar yr amser cywir<br>• Hyrwyddo iechyd a lles cadarnhaol a chefnogi pobl i hunangynhaliaeth<br>• Cryfhau teuluoedd fel bod plant a phobl ifanc yn aros gyda'u teulu<br>• Galluogi unigolion i fyw'n annibynnol yn eu cymuned eu hunain<br>• Yn darparu ymagweddau cymesur at ofal a chymorth a reolir<br>• Amddiffyn unigolion a'u cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod |
| **Ymglymiad** | | | |
| **Darparu dull safonol ac effeithiol o ymgysylltu a chyfranogi ar draws y Cyngor a sicrhau bod y Cyngor yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau a mwyaf priodol** | Cyhoeddi'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad newydd i wella cyfleoedd ymgysylltu a chyfranogi i ddinasyddion a rhanddeiliaid Ceredigion | **2022/23** | • Darparu dull safonol ac effeithiol o ymgysylltu a chyfranogi ar draws y Cyngor<br>• Sicrhau bod y Cyngor yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau a mwyaf priodol<br>• Cael y wybodaeth ddiweddaraf am arfer gorau ym maes ymgysylltu ac ymgynghori<br>• Mae dinasyddion a rhanddeiliaid yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ac wrth lunio gwasanaethau'r Cyngor<br>• Sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu cyfeirio at feysydd blaenoriaeth, megis yr argyfwng costau byw presennol, fel y nodwyd trwy ymgysylltu ac ymgynghori.<br>• Sicrhau bod lleisiau pawb yng Ngheredigion yn cael eu clywed |

# BETH YW HUNANASESU?

**Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 broses newydd ar gyfer monitro perfformiad pob awdurdod lleol, yn seiliedig ar hunanasesiad.**

Mae’r gyfundrefn berfformiad newydd yn diffinio prif gynghorau fel ‘sefydliadau hunan wella’ drwy system sy’n seiliedig ar hunanasesu ac asesiad perfformiad panel. Bwriad y dull newydd yw adeiladu ar, a chefnogi, diwylliant lle mae cynghorau’n herio’r sefyllfa bresennol yn barhaus ac yn gofyn cwestiynau am sut y maent yn gweithredu a sut y gallant ddysgu o arfer gorau. Bydd hunanasesiad tryloyw ac agored o gyngor yn rhan sylfaenol o'r dull hwn.

Mae hunanasesu effeithiol yn rhoi sicrwydd dibynadwy yn fewnol ac yn allanol i reoleiddwyr ac arolygiaethau ac yn bennaf oll mae'n helpu cynghorau i ddysgu'n barhaus a chyflawni gwelliant cynaliadwy a chanlyniadau gwell i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gweithlu eu hunain.

Mae pum dyletswydd benodol wedi’u cyflwyno gan y Ddeddf:

1. **Dyletswydd i barhau i adolygu perfformiad**
   Mae gan Gyngor Sir Ceredigion ddyletswydd i adolygu i ba raddau y mae’n cyflawni ei ‘gofynion perfformiad’ drwy bennu i ba raddau y mae:
   - Arfer ei swyddogaethau yn effeithiol
   - Defnyddio ei adnoddau yn economaidd, effeithlon ac effeithiol
   - Sicrhau bod ei lywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod

2. **Dyletswydd i ymgynghori ar berfformiad**
   Rhaid i gynghorau ymgynghori ag amrywiaeth o bobl o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol ynghylch i ba raddau y maent yn bodloni eu gofynion perfformiad. Yr ymgyngoreion statudol yw:
   - Pobl leol
   - Pobl eraill sy'n cynnal busnes yn y Sir
   - Staff y Cyngor
   - Pob Undeb Llafur a gydnabyddir gan y Cyngor

3. **Dyletswydd i adrodd ar berfformiad**
   Rhaid i'r Cyngor gynhyrchu adroddiad hunanasesu bob blwyddyn ariannol. Rhaid i’r adroddiad nodi ei gasgliadau ynghylch i ba raddau yr oedd yn bodloni’r gofynion perfformiad, ac unrhyw gamau y mae’n bwriadu eu cymryd, neu y mae eisoes wedi’u cymryd i wella ymhellach.

4. **Dyletswydd i drefnu panel asesu perfformiad**
   O leiaf unwaith ym mhob cyfnod etholiad, rhaid i'r Cyngor drefnu i banel annibynnol gynnal asesiad o'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac adrodd ar ei ganlyniadau.

5. **Dyletswydd i ymateb i panel asesu perfformiad**
   Rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i Adroddiad y Panel Asesu yn nodi
   - I ba raddau y mae'n derbyn y casgliadau yn yr adroddiad
   - Sut mae'n bwriadu dilyn unrhyw argymhellion
   - Unrhyw gamau pellach y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i wella perfformiad

Diben y darpariaethau perfformiad a llywodraethu yn y Ddeddf yw adeiladu a chefnogi ar ddiwylliant sy’n datblygu, lle mae cynghorau’n mynd ati i geisio a chroesawu her, boed yn cael ei chyflwyno gan y cyngor, er enghraifft drwy weithdrefnau craffu, neu’n allanol. Mae'r darpariaethau wedi'u cynllunio i ddatblygu fframwaith sy'n cefnogi cynghorau, trwy broses adolygu barhaus, i feddwl am eu perfformiad a'u heffeithiolrwydd nawr ac ar gyfer y dyfodol; i annog sefydliadau mwy chwilfrydig sy'n barod i herio eu hunain i wneud mwy; a bod yn fwy arloesol a mwy uchelgeisiol yn yr hyn a wnânt.

**Ymarfer Myfyriol**
Ar gyfer Ceredigion, mae egwyddorion hunanasesu eisoes yn rhan annatod o'i threfniadau llywodraethu strategol a chorfforaethol parhaus.

Rydym yn cydnabod y cyfle ar gyfer hunan fyfyrio a her adeiladol. Er enghraifft, mae’r math hwn o arfer myfyriol eisoes yn rhan annatod o Ddatganiad Cynllunio Busnes a Llywodraethu Blynyddol y Cyngor, ac eisoes wedi’i hen sefydlu yn y Cyngor. Mae arfer myfyriol yn elfen graidd o broses rheoli perfformiad cyffredinol y Cyngor, ac yn canolbwyntio ar werthuso *sut rydym yn gwneud pethau* ac nid dim ond *yr hyn a wnawn.*

Rydym wedi mabwysiadu dull tebyg gyda Hunanasesu – mae arfer myfyriol yn rhan allweddol o’n Gweithdai Hunanasesu lle rydym yn myfyrio ar sut rydym yn gweithredu ar hyn o bryd, yr heriau a wynebwn yn y dyfodol a sut rydym yn ymgorffori cynaliadwyedd yn ein gweithgareddau wrth symud ymlaen.

## Daeth Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i rym yn 2021

## Y Pum Dyletswydd ar y Prif Gynghorau yw:

- CADWCH BERFFORMIAD O DAN ADOLYGIAD
- YMGYNGHORI AR BERFFORMIAD
- ADRODD AR BERFFORMIAD
- TREFNU ASESIAD PANEL PERFFORMIAD
- YMATEB I ASESIAD Y PANEL PERFFORMIAD

# SUT GWNAETHOM GYNNAL YR HUNANASESIAD

**Ein Dull o Hunanasesu**

Mae ein dull at Hunanasesu yn seiliedig ar asesu ein hunain yn erbyn cyfres o Lwybrau Ymholi Allweddol. Mae “KLOEs” fel y cyfeirir atynt weithiau, yn gyfres o gwestiynau allweddol perthnasol yr ydym yn eu gofyn i ni ein hunain wrth i ni weithio drwy'r Hunanasesiad.

Mae’r dull Llinellau Ymholi Allweddol yn ddull profedig o gynnal hunanasesiadau mewn Llywodraeth Leol ac ar draws y sector cyhoeddus ehangach. Mae'n sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar y farn gorfforaethol neu 'gyfannol' o berfformiad y Cyngor fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Mae hefyd yn darparu'r eglurder hunanwerthuso sydd ei angen i'n helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella, ac wrth wneud hynny, mae'n darparu llwybr archwilio cryf i esbonio'r camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd wrth ymateb.

Cofnodir y canfyddiadau yn ein dogfen Matrics Hunanasesu. Mae’r Matrics yn cofnodi’r dystiolaeth sy’n dangos sut yr ydym yn perfformio ar hyn o bryd, ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol a’r camau y mae angen inni eu cymryd er mwyn cyflawni’r uchelgeisiau hynny. Defnyddir y ddogfen hon i nodi'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer gwelliant ac fe'i defnyddir i ddatblygu ein Cynllun Gweithredu Hunanasesu. Mae'r Matrics Hunanasesu ar gael ar gais.

**Cylchred Barhaus**

Mae hunanasesu yn broses barhaus o welliant - yn ystod y flwyddyn rydym yn cynnal ymgynghoriad i gefnogi hunanasesiad, rydym yn coladu tystiolaeth i lywio ein gweithdai, rydym yn cyflawni'r camau gweithredu yn ein cynllun gweithredu Hunanasesiad ac rydym yn monitro eu cynnydd tuag at ei gwblhau. Yr Adroddiad Hunanasesu yw'r allbwn allweddol o'r broses ond mae'r gwaith ar wella canlyniadau yn weithgaredd parhaus drwy gydol y flwyddyn.

Mae’r diagram isod yn crynhoi’r prif gamau a’r graddfeydd amser sydd ynghlwm wrth gynnal yr Hunanasesiad a chynhyrchu’r Adroddiad Hunanasesu.

**Gwerthuso, Myfyrio ac Adnabod Cyfleoedd**

Yn ystod mis Ebrill bob blwyddyn rydym yn dod ag amrywiaeth eang o dystiolaeth ynghyd i'n helpu i asesu ein perfformiad presennol. Mae hyn yn cynnwys monitro perfformiad mewnol, adroddiadau rheolyddion o arolygiadau a chanlyniadau gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu. Rydym yn cynnal ymarfer o adolygu'r dystiolaeth i nodi canfyddiadau allweddol - lle mae perfformiad wedi gwella, lle mae cyfleoedd i wella a beth yw'r themâu allweddol o'n hymgynghoriad.

Cyflwynir canfyddiadau’r ymarfer hwn i Weithdai Hunanasesu gyda Grŵp Arweiniol y Cyngor a Phwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu i helpu i asesu ein perfformiad.

Yn y gweithdai rydym yn ailasesu ein hunain yn erbyn y Prif Linellau Ymholi, gan ddiweddaru ein tystiolaeth ar gyfer pob cwestiwn a defnyddio hyn i nodi camau gweithredu ar gyfer gwella. Maent yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael iddynt ac yn ychwanegu eu persbectif eu hunain i ddarparu sgorau wedi'u diweddaru ar gyfer pob cwestiwn.

Mae'r gweithdai canfyddiadau'n cael eu coladu gan y Tîm Perfformiad ac Ymchwil. Maent yn cynhyrchu'r Adroddiad Hunanasesu drafft trwy dynnu ar y matrics tystiolaeth, y sgorau a'r camau gwella a nodwyd yn y gweithdy, ynghyd â ffynonellau allweddol eraill megis strategaethau allweddol ac adroddiadau arolygu.


Mae rhan o’r coladu’n cynnwys croeswirio’r sgôr gyda’r dystiolaeth a ddarparwyd a cheisio eglurder ar ein casgliadau lle bo angen. Mae bylchau mewn tystiolaeth a dealltwriaeth o’n perfformiad hefyd yn cael eu hamlygu, sydd i gyd wedi’u cynllunio i sicrhau bod y broses yn gadarn.

Drwy ganolbwyntio ar hyn, gallwn ddysgu o’n profiadau a manteisio ar yr arloesedd a’r creadigrwydd sy’n bodoli yn y Cyngor i nodi cyfleoedd i wella ein perfformiad, boed hynny drwy godi lefelau perfformiad, nodi effeithlonrwydd neu wella boddhad cwsmeriaid.

Mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio’r Cyngor yn chwarae rhan allweddol yn y proses Hunan Asesu. Maent yn gyfrifol am adolygu'r Adroddiad Hunanasesu drafft a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau y daethpwyd iddynt neu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Caiff yr Adroddiad drafft ei adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi.

Caiff yr Adroddiad Hunanasesu ei ddiweddaru yn dilyn argymhellion y Pwyllgor a chyhoeddir yr adroddiad terfynol ym mis Tachwedd a'i gyflwyno i'r derbynwyr statudol - Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Gweinidogion Cymru. Bydd yr Adroddiad ar gael i’w weld ar wefan y Cyngor.

**Camau ac amserlen ar gyfer cwblhau Adroddiad Hunanasesu Ceredigion 2021/22**



# ASESIAD SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH

Mae Ceredigion yn ymdrechu i fod yn sefydliad a yrrir gan dystiolaeth a data. Defnyddiwyd amrywiaeth eang o dystiolaeth wrth asesu ein perfformiad ac wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn.


Rhennir y ffynonellau hyn yn dri chategori sy'n ein helpu i wirio bod ein casgliadau'n gywir. Y tri chategori yw'r dystiolaeth fewnol sydd ar gael i ni trwy strategaethau allweddol a monitro mewnol, megis y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol a monitro Cwynion. Mae hyn yn rhoi golwg fewnol i ni o sut mae'r sefydliad yn perfformio.

Rydym hefyd yn defnyddio’r dystiolaeth reoleiddiol ac allanol helaeth sy’n bodoli. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau arolygu gan Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru a'r gwaith parhaus a wneir gan Archwilio Cymru. Mae hyn yn rhoi golwg reoleiddiol neu allanol i ni o sut rydym yn perfformio gan gyrff annibynnol.

Y trydydd categori o dystiolaeth yw barn dinasyddion, busnesau, Staff y Cyngor ac Undebau Llafur, gan gynnig safbwynt y rhai sy'n derbyn gwasanaethau gan y Cyngor. Mae gan y Cyngor broses ymgysylltu ac ymgynghori parhaus ar waith drwy gydol y flwyddyn a ddefnyddir i gofnodi barn trigolion ar amrywiaeth o swyddogaethau’r Cyngor.

Mae’r tri chategori tystiolaeth hyn yn ein helpu i ‘driongli’ neu wirio mai’r casgliadau y byddwn yn dod iddynt yw’r rhai cywir drwy ganiatáu inni gymharu’r canfyddiadau allweddol o bob un a sicrhau eu bod yn cyd-fynd cyn cynhyrchu’r Adroddiad Hunanasesu (dangosir isod).

### Y mathau o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r Adroddiad Hunanasesu




# DYSGU O YMGYNGHORI

Mae ymgynghori yn rhan annatod o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn ein rheolaeth perfformiad, a bydd yn parhau i chwarae rhan fwy byth wrth i ni barhau i archwilio cyfleoedd i wella gydag amrywiaeth o unigolion a grwpiau ar draws y Sir.

Lle mae angen mwy o adborth gan grwpiau penodol, byddwn yn addasu ein hymagwedd yn ystod y flwyddyn i dargedu'r meysydd hynny. Byddwn yn ymgysylltu â’r llu o grwpiau a sefydliadau sy’n cynrychioli grwpiau penodol yn y sir, ac yn arbennig i sicrhau bod lleisiau’r rhai na clywir yn aml yn cael eu clywed yn iawn.

Yn 2021/22 rydym wedi elwa o rai digwyddiadau ymgysylltu pwysig sy’n rhoi cipolwg unigryw ar farn dinasyddion a rhanddeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol a roddodd ymatebion manwl ynghylch y materion sy’n helpu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl.

Fe wnaethom hefyd gynnal arolwg unigryw o ddeiliaid tai a busnesau yng Ngheredigion yn ymwneud ag effaithau COVID-19 i helpu yn yr ymdrech adfer a darparu'r cymorth sydd ei angen i fynd i'r afael ag effeithiau hirdymor y pandemig.

Mae’r ddau o’r rhain wedi’u defnyddio wrth gynhyrchu Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor a’r Amcanion Llesiant Corfforaethol yr ymgynghorir arnynt yn ystod mis Medi 2022.

### Ffynonellau a ddefnyddiwyd wrth gynnal yr Hunanasesiad ac Adolygiad o’r Amcanion Llesiant

**Tystiolaeth Fewnol**

- Datganiad Cyfrifon
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adborth ac Adroddiadau Craffu
- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Dangosfyrddau Perfformiad Chwarterol
- Cynnydd y Cynllun Busnes
- Cofrestr Risg Corfforaethol
- Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion
- PAMs
- Adroddiadau Hunanasesu Blaenorol
- Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Treth y Cyngor / Cyfradd Casglu
- Strategaeth Gorfforaethol
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

**Tystiolaeth Rheoleiddiol/Allanol**

- Adroddiad Gwella Blynyddol Archwilio Cymru
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru
- Adroddiadau Archwilio Cymru
- Adroddiadau AGC
- Adroddiadau arolygu Estyn
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Bydd yn cynnwys Asesiad y Panel Perfformiad
- Adroddiadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Asesiad o Lesiant Lleol BGC Ceredigion
- Adroddiad Blynyddol BGC Ceredigion
- Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru
- Mesurau Atebolrwydd Perfformiad
- Data Cymru / Ystadegau Cymru

**Ymgynghori ac Ymgysylltu**

- Arolwg Llesiant Rhanbarthol
- Ymgynghoriad Strategaeth Economaidd
- Fforwm Anabledd
- Her Cyllideb Ceredigion
- Is-grŵp Menter ac Arloesi
- Cyfarfodydd misol yr Undebau Llafur
- Effaith Arolwg COVID-19
- Arolwg Lles Staff
- Ymgynghori â Staff ar Ffyrdd Newydd o Weithio

# RHEOLI EIN PERFFORMIAD


**Integreiddio i Fframwaith Perfformiad y Cyngor**

Nid yw hunanasesu yn broses annibynnol, yn hytrach mae wedi'i hintegreiddio fel rhan o drefniadau cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad parhaus y Cyngor. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae hunanasesu yn cydfynd â'n fframwaith perfformiad cyffredinol.

Mae'n hanfodol i lywio Cynllunio Busnes a Rheoli Risg, ac yn ei dro mae'n tynnu ar ganlyniadau monitro cynlluniau busnes a'r gofrestr risg gorfforaethol i werthuso ein perfformiad presennol a chwblhau'r hunanasesiad. Yn ei hanfod, mae'n gyfathrebu dwy ffordd rhwng pob piler o'r Fframwaith Perfformiad.

Mae amseriad Hunanasesiad hefyd yn bwysig. Mae wedi'i amseru i lywio a dylanwadu'n drylwyr ar brosesau cynllunio strategol, rheolaeth ariannol a chyllideb y Cyngor, adolygiadau rheoli risg, cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad parhaus. Er enghraifft, mae cyhoeddi'r Adroddiad Hunanasesu ym mis Tachwedd yn sicrhau ei fod yn cael ei baratoi mewn pryd i lywio'r broses cynllunio busnes a gosod targedau blynyddol yn chwarter olaf pob blwyddyn rhwng Ionawr a Mawrth.

**Hunanasesiad yn y Fframwaith Perfformiad Ehangach**




Mae gan Geredigion hanes hir o ddefnyddio hunanasesu yn effeithiol i ganfod ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau, yn fwyaf diweddar yn y 'Rhaglen Gydol Oed a Llesiant' sy'n cael ei rhoi ar waith i drawsnewid darpariaeth gofal cymdeithasol yn y Sir dros y pum mlynedd nesaf.


Mae hefyd yn rhan annatod o berfformiad gweithredol a chaiff ei ddefnyddio wrth osod cynlluniau busnes blynyddol ar gyfer pob gwasanaeth. Rydym i gyd yn cydnabod bod capasiti yn brin a bod galw mawr, ac o ganlyniad ni fu cynllunio busnes effeithiol erioed mor bwysig i sicrhau ein bod yn darparu'r 'gwasanaethau cywir yn y ffordd gywir'. Mae cael y cyfle i 'fyfyrio' ar berfformiad y gorffennol a'r presennol yn hanfodol i ddeall ein cryfderau, ein gwendidau a'n cyfleoedd. Mae'r math hwn o ymarfer myfyriol yn hollbwysig i'n helpu i bennu ein gweithredoedd a'n blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

**Y Llinyn Aur**

Mae'r Cyngor yn defnyddio diagram 'Llinyn Aur' (a ddangosir ar y dde) i ddangos y cysylltiadau rhwng ei strategaethau a'i gynlluniau allweddol. Mae'n disgrifio'r llif gwybodaeth o flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer gwella a gynhwysir yn y Cynllun Llesiant Lleol a'r Strategaeth Gorfforaethol, drwodd i wasanaethau unigol, timau ac aelodau o staff y Cyngor sy'n gyfrifol am eu cyflawni.

Mae Llinyn Aur cryf yn bwysig gan ei fod yn dangos sut mae pob lefel o gynllunio a gweithredu yn cyfrannu at y lefel nesaf, a sut mae pob rôl o fewn y Cyngor yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Llesiant Corfforaethol Ceredigion.

Mae lle allweddol i hunanasesu yn y Llinyn Aur fel y ffordd yr ydym yn mesur llwyddiant ac yn ysgogi gwelliannau perfformiad, ynghyd â Chynllunio Busnes a rheolaeth a risg.



# ADOLYGIAD O'R AMCANION LLESIANT 2021/22

Roedd Amcanion Llesiant 2021/22 y Cyngor yn canolbwyntio ar ymateb ac adferiad i bandemig COVID-19. Cymerwyd y penderfyniad hwn er mwyn gwarchod a gwella llesiant pawb yn ystod y cyfnod anodd hwn, ond heb beryglu llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Fe'u cynlluniwyd i gefnogi gwaith adfer parhaus y Cyngor a'i bartneriaid. Cafodd yr Amcanion eu nodi a'u halinio i Asesiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o Lesiant Lleol a'r Cynllun Llesiant Lleol. Dangosir yr wyth amcan yn y diagram ar y dde.

Mae wedi bod yn ddwy flynedd heriol i bawb yng Ngheredigion a ledled Cymru. Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar bob preswylydd, busnes a chymuned mewn gwahanol ffyrdd. Rydym wedi gweld rhai materion, megis tlodi ac yn enwedig tlodi mewn gwaith, yn dod i'r amlwg, tra bod materion eraill megis fforddiadwyedd tai wedi'u gwaethygu yn ystod y cyfnod hwn. Ar yr un pryd, rydym i gyd wedi bod yn ymwybodol o'r angen parhaus i leihau allyriadau carbon a symud tuag at ddod yn garbon-net sero er mwyn diogelu ein hamgylchedd hardd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau, rydym yn falch iawn o sut mae ein cymunedau wedi dod at ei gilydd i gefnogi ei gilydd yn ystod y cyfnod anodd hwn, ac o'r ffyrdd y mae'r cyngor wedi addasu ei ffyrdd o weithio i barhau i ddarparu gwasanaethau drwy gydol y cyfnod.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod a chyhoeddi Amcanion Llesiant sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'n cyfraniad at gyflawni'r saith Nod Llesiant ar gyfer Cymru a nodir yn y Ddeddf. Ar yr un pryd mae'n rhaid i ni gyhoeddi datganiad yn egluro pam y bydd cyflawni'r amcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a pha gamau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o sut mae ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2021/22 yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol, adolygiad o gynnydd yn erbyn cyflawni'r Amcanion a sut rydym wedi cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar adferiad o'r pandemig a byddwn yn parhau i ymgysylltu â, a chefnogi, trigolion a busnesau ar draws y Sir.

Mae Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer 2022-27 yn nodi ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol newydd a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Ceir crynodeb o'r Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd o 2023/24, a sut y cawsant eu hadolygu, ar dudalen 34.

## Amcanion Llesiant 2021/22

### Hybu'r Economi

- Cynorthwyo busnesau i ymateb i effeithiau COVID-19

### Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl

- Cefnogi dysgwyr o bob oed a chefndir, i ddychwelyd yn ddiogel i addysg a hyfforddiant a gwella mynediad at ddysgu a chyflogaeth
- Amddiffyn pobl rhag tlodi
- Hyrwyddo a hwyluso diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion

### Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd

- Cefnogi dinasyddion y mae COVID-19 wedi effeithio'n anghymesur arnynt i wella eu lles corfforol ac emosiynol
- Hyrwyddo lles unigolion a chymunedau o fewn cartrefi diogel a hygyrch

### Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol

- Cefnogi teithio lledol, gwahanol fathau o deithio a ffyrdd o weithio sy'n adeiladu ar ein huchelgais o fod yn carbon net sero
- Cefnogi ein cymunedau i fod yn gryf ac efo cysylltiad da fel eu bod yn gallu ffynnu er gwaethaf COVID-19

# GWELLA CANLYNIADAU

## Creu Cyfleoedd

Yn Ionawr 2022, llofnodwyd y Cytundeb Terfynol ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol y rhanbarth, sef Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys.

Mae'r Fargen Twf yn partneriaeth arloesol sy'n dod â buddsoddiad cyfunol o £110m gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a disgwylir iddo ysgogi buddsoddiad ychwanegol sylweddol o ffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill gan greu cymaint o effaith â phosib yn rhanbarth Canolbarth Cymru.

Mae'r garreg filltir hon yn arwyddocaol gan bod disgwyl i'r rhaglenni a'r prosiectau a gefnogir gan y Fargen Dwf greu manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach, megis gwell ansawdd bywyd, creu cyfleoedd busnes yn dilyn effaith COVID-19, datgarboneiddio mewn diwydiant ac ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Y canlyniadau posibl y gellir eu cyflawni yng Nghanolbarth Cymru drwy fuddsoddiad y Fargen Dwf ydy:

- Creu rhwng 1,100 a 1,400 o swyddi newydd yng Nghanolbarth Cymru erbyn 2032.
- Cefnogi cynnydd net ychwanegol o rhwng £570 miliwn a £700 miliwn yng ngwerth ychwanegol gros Economi Canolbarth Cymru erbyn 2032.
- Sicrhau buddsoddiad o hyd at £400 miliwn yn Economi Canolbarth Cymru erbyn 2032.

## Bywydau Annibynol a Bodlon

Mae trigolion cyntaf cynllun gofal ychwanegol newydd Aberystwyth wedi siarad am y modd y mae wedi trawsnewid eu bywydau, o gwrdd â ffrindiau newydd i ddarparu llwyfan ar gyfer dechrau newydd mewn bywyd.

Agorodd Maes y Môr, a ddarparwyd gan Dai Wales & West mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion, ym mis Hydref ym Mhen-yr-Angor, ac mae'n edrych dros y dref a'r harbwr. Ond i lawer o'i breswylwyr newydd, mae wedi cynnig llawer mwy na golygfeydd ysblennydd o'r môr yn unig.

TMae eu cartref newydd yn darparu mynediad hawdd at amrywiaeth o gyfleusterau, gofal a chymorth 24 awr ar y safle yn ogystal â Swyddog Lles, gan sicrhau bod preswylwyr yn **byw bywyd annibynnol, iach** a **llawn boddhad.**

## Cefnogi Pobl sy'n Agored i Niwed

Yn ystod pandemig COVID-19 roedd tua 2,900 o breswylwyr o bobl ifanc i deuluoedd i ofalwyr wedi'i chefnogi trwy alwadau 'Cadw mewn Cysylltiad' rheolaidd oddi wrth staff y Cyngor yn Borth Cymorth Cynnar i wirio am ei llesiant ac i ddarparu cyfleoedd i siarad â rhywun arall yn ystod y cyfnod clo, roedd hyn yn helpu **lleihau ynysu cymdeithasol** ac **unigrwydd.**

## Cymunedau Cryf

Mae Amgueddfa Ceredigion yn falch iawn o fod wedi derbyn £115,894 o gyllid datblygu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer y prosiect canlynol: Perthyn: Archwiliad o sut y gall casgliadau **greu cymuned yng Ngheredigion.**

Mae Perthyn yn brosiect uchelgeisiol sy'n ceisio sicrhau y gall pob un o drigolion Ceredigion ddod o hyd i rywbeth yng nghasgliad yr amgueddfa sy'n **taro tant â'u hymdeimlad o hunaniaeth** a'u **gwerthoedd,** waeth beth fo'u hoedran, eu rhywedd, eu hethnigrwydd, eu credoau, eu rhywioldeb, eu gallu, neu nodweddion eraill y maent yn uniaethu â nhw.

## Amgylchedd Iach

Yn Mehefin 2022, cynhaliwyd Gwobrau Effeithlonrwydd Ynni Rhanbarthol Cymru yng Nghaerdydd. Enillodd Cyngor Sir Ceredigion ddwy wobr am eu Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni.

Cynhaliwyd y gwobrau hyn i gydnabod gwaith rhagorol y sector arbed ynni yng Nghymru. Diben cynlluniau arbed ynni sydd ar waith ledled Cymru yw helpu perchnogion tai i **leihau eu biliau ynni,** mynd i'r afael â **thlodi tanwydd** a **lleihau allyriadau carbon**.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn rhedeg y Cynllun Hyblygrwydd ECO a Chynllun Cartrefi Clyd Ceredigion ers nifer o flynyddoedd. Fel rhan o'r cynlluniau hyn, mae nifer o fesurau inswleiddio a systemau gwresogi wedi'u cyflwyno mewn amrywiol adeiladau i wella eu **heffeithlonrwydd o ran ynni**.

Erbyn hyn, mae'r Cyngor wedi buddsoddi dros £5 miliwn mewn prosiectau effeithlonrwydd egni ac arbedion carbon, mae'r buddsoddiadau yma wedi arbed £2.8miliwn hyd yn hyn.

## Ceredigion Cysylltiedig

Mae'r ddwy flynedd diwethaf wedi dangos pa mor gritigol mae cysylltedd digidol i fusnesau, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau Cymru. Mae buddsoddi a lobio parhaol gan y Cyngor wedi arwain at wella cysylltedd digidol ar draws y Sir. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth o Fand eang Ffibr i'r Adeilad (FTTP) wedi cynyddu o 20% i 28.3%.

Mae gwell cysylltedd digidol yn cynyddu **arloesi** a **chynhyrchiant** ar draws y sir, ond mae hefyd yn **cadw pobl a chymunedau yn gysylltiedig**. Bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi gwelliannau i gysylltedd digidol, megis cyflwyniad Band eang 4G, i helpu darparu'r cysylltedd mae busnesau a phobl angen, i **fynd i'r afael a gwahardd digidol** a **chynyddu cyfleoedd i bawb**.

# AMCAN LLESIANT:

## 1) Cefnogi Busnesau i ymateb i effeithiau COVID-19

## Cynnydd a Wnaed

- Mae partneriaeth economaidd Tyfu Canolbarth Cymru wedi'i sefydlu ac wedi llwyddo i ddenu buddsoddiad Bargen Twf gwerth £110m i Ganolbarth Cymru dros y 10 mlynedd nesaf ar gyfer prosiectau ar draws y rhanbarth.
- Mae £10.8m o fuddsoddiad wedi'i sicrhau o Gronfa Lefelu i Fyny Llywodraeth y DU i helpu i drawsnewid Harbwr, Hen Goleg a phromenâd Aberystwyth.
- Sicrhawyd gwerth 2.8m o fuddsoddiad o Gronfa Adnewyddu Gymunedol Llywodraeth y DU, ar gyfer 12 cynllun cymunedol ar draws y sir.
- Arweiniodd cynllun Grant Cyfalaf Bach a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2021 at bron i £500,000 o fuddsoddiad grant mewn busnesau Ceredigion, gan ddenu £631,000 pellach o gyllid gan y sector preifat. Arweiniodd y cymorth at greu 146 o swyddi newydd yng Ngheredigion, a chafodd 408 o swyddi eraill eu diogelu mewn 81 o fusnesau drwy'r buddsoddiadau.
- Mae buddsoddiadau wedi arwain at Geredigion fel y Sir gyntaf i gael rhwydwaith LoRaWan ar gyfer y sir gyfan, sydd ar gael i bartneriaid yn y sector preifat a chyhoeddus ei ddefnyddio i wella'r defnydd o dechnoleg fel cymorth effeithlonrwydd busnes.
- Cefnogi'r sector annibynnol trwy weithio ar y cyd gan ddarparu cymorth, cyllid ac adnoddau ar y cyd. Darparu adnoddau staffio ychwanegol, offer yn ogystal â chyngor iechyd a diogelwch a pholisïau a gweithdrefnau.
- Arwain ar waith y Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) i ddatblygu ymagweddau adeiladu cyfoeth cymunedol at bolisïau ac arferion caffael lleol
- Cefnogi busnesau lleol yn ystod y pandemig COVID-19 drwy weinyddu 8,835 o daliadau Grant Busnes ledled Ceredigion gwerth £49m.
- Cyhoeddwyd Strategaeth Economaidd newydd Ceredigion ym mis Mawrth 2021, roedd yn nodi sut y byddwn yn cydweithio tuag at sicrhau twf economaidd cryf, cynaliadwy a mwy gwydn i Geredigion, wedi'i greu a'i rannu gan bawb. Mae'r ddogfen strategaeth yn nodi'r camau gweithredu a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n bodoli yn yr economi leol. Mae'n canolbwyntio ar bedwar prif faes blaenoriaeth – Pobl, Menter, Lle a Chysylltedd, gyda phob adran yn amlinellu rhai o'r ymyriadau cynnar a ystyriwyd. Bydd gwaith yn parhau ar ddatblygu'r cynlluniau gweithredu manwl yn ystod 2021/22.
- Yn ystod y pandemig, crëwyd tudalen we Cymorth Busnes pwrpasol i gefnogi economi Ceredigion i sicrhau bod busnesau, cyflogwyr a gweithwyr yn y Sir yn gallu cael gafael ar y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth diweddaraf i'w helpu i addasu ac adfer ar ôl y pandemig.
- Crëwyd "parthau diogel" yng nghanol trefi Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Chei Newydd i greu trefi diogel, deniadol i bobl ddod i siopa a'u mwynhau er gwaethaf effaith y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys lledu llwybrau troed, gostwng cyrbau, cau ffyrdd, addasu mannau parcio a mannau i fusnesau fasnachu er mwyn galluogi pobl i gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr bob amser.
- Rheolwyd 8,900 o ymholiadau'n ymwneud â COVID gan Wasanaeth Cyswllt Cwsmer Ceredigion 'CLIC' yn ystod y flwyddyn 2020/21, gan gynnwys ymholiadau yn ymwneud â Grantiau Busnes, y Gronfa Adfer Ddiwylliannol a'r Cynllun Grant Cyfalaf Busnesau Bach. Roedd dros 2,000 yn unig yn ymwneud â'r Grant Trethi Annomestig yn helpu busnesau yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth, hamdden a manwerthu nad ydynt yn hanfodol.
- Mae Gweithffyrdd+ Ceredigion wedi parhau i helpu pobl sydd ddim mewn cyflogaeth i gael mynediad at hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein wedi'i ariannu, profiad gwaith, cyfleoedd gwirfoddoli a swyddi. Mae'r cynllun yn cael ei staffio gan swyddogion o Gyngor Sir Ceredigion ac yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru. Mae cymorth ar gael i helpu pobl yr effeithir arnynt gan gyflyrau iechyd neu anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio; gofalwyr; y rhai â chymwysterau isel neu ddim cymwysterau; pobl â chyfrifoldebau gofal plant; pobl dros 54 oed; pobl mewn cartref un oedolyn neu gartref ddi-waith neu unrhyw un o grŵp Du a Lleiafrifoedd Ethnig.

### Asesiad Cyffredinol o'r Daith Hyd Yma

Mae cynnydd wrth fodloni'r flaenoriaeth hon yn Dda ac mae'r rhagolygon gwella yn Dda. Mae'r camau i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a datblygu cynlluniau partneriaeth gydweithredol ac arloesol yn symud ymlaen yn dda.

Mae'r Strategaeth Economaidd newydd yn darparu gweledigaeth a rennir ar gyfer yr economi leol ac ymyriadau ymarferol y gellir eu darparu ar y cyd.

Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn enghraifft o gydweithio i sicrhau ein bod yn cryfhau'r economi leol a rhanbarthol fel rhan o Gymru lewyrchus a chydnerth ar ôl COVID-19.

## DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

**Hirdymor**

- Mae'r Strategaeth Economaidd yn cynllunio ar gyfer datblygiad hirdymor yr economi hyd at 2035
- Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r Strategaeth Economaidd yn mynd i'r afael â gwendidau strwythurol hirdymor
- Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn gosod y weledigaeth ar gyfer amserlen 15+ mlynedd
- Defnyddiwyd dadansoddiad tueddiadau yn y dyfodol i ddatblygu gweledigaeth Tyfu Canolbarth Cymru

**Atal**

- Bydd mwy o gyfleoedd economaidd yn atal allfudo pellach o bobl ifanc medrus
- Bydd twf economaidd yn atal effaith negyddol patrymau mudo yn y dyfodol ar y Gymraeg a diwyll-iant Cymru
- Bydd ymyriadau yn y Strategaeth Economaidd yn atal twf pellach yn y bwlch cynhyrchiant

**Cydweithio**

- Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn dod â'r sectorau cyhoeddus, preifat ac academaidd ynghyd i gyflawni nodau a rennir
- Gweithio gyda Chyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru a'r DU i wneud y defnydd gorau o adnoddau a manteisio ar gyfleoedd

**Cynnwys**

- Mae busnesau'r sector preifat, ysgogwyr twf economaidd yn y dyfodol, yn rhan o'r gwaith o nodi blaenoriaethau a strategaethau allweddol
- Y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n ymwneud â llunio rhaglen y Cynllun Twf sy'n dod i'r amlwg
- Ymgymerwyd yn helaeth â datblygiad y Strategaeth Economaidd

**Integreiddio**

- Mae'r Strategaeth Economaidd yn darparu gweledigaeth a chamau gweithredu a rennir ar gyfer datblygu'r economi leol a bydd yr ymyriadau a gynhwysir ynddi yn cael eu cyflawni gan amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid dros y 15 mlynedd nesaf.
- Strategaethau twf economaidd wedi'u hintegreiddio â gwasanaethau eraill a ddarperir, gan gynnwys addysg, sgiliau, cynllunio a seilwaith

### UCHAFU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

**Mae cefnogi busnesau i ymateb i effeithiau COVID-19 yn cefnogi pob un o'r Nodau Llesiant Cenedlaethol** - Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru Iachach, Cymru o Gymunedau Cydlynus, Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu, a Chymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

**£10.8m**
o gyllid cyfalaf wedi'i sicrhau trwy'r Gronfa Codi'r Gwastad 2022-25

**£2.8m**
o gyllid cyfalaf wedi'i sicrhau trwy'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol i 2022/23

**8,835**
Taliadau Grant Busnes a weinyddir ar draws Ceredigion

**£49m**
O'r cyllid Grant Busnes a weinyddir ar draws Ceredigion

**3,700**
Ymweliadau i sicrhau bod adeiladau busnes yn cydymffurfio â rheolau COVID-19

**138**
Aelod staff wedi adleoli i rolau eraill i helpu i gefnogi ymateb COVID-19

**8,900**
o ymholiadau yn ymwneud â COVID wedi'i rheoli gan Wasanaeth Cyswllt Cwsmer Ceredigion 'CLIC'

**11.4m**
o Eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) wedi'i dosbarthu

# AMCANION LLESIANT:

2) Cefnogi dysgwyr o bob oed a chefndir, i ddychwelyd yn ddiogel i addysg a hyfforddiant a gwella mynediad at ddysgu a chyflogaeth

3) Amddiffyn pobl rhag tlodi

4) Hyrwyddo a hwyluso diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion

## Cynnydd a Wnaed

- Mae system addysg Ceredigion yn parhau i gael ei hystyried ymhlith y mwyaf llwyddiannus yng Nghymru. Cafodd y gefnogaeth a'r adnoddau a ddarparwyd i holl ysgolion Ceredigion yn ystod pandemig Covid-19 eu canmol a'u gwerthfawrogi'n arbennig gan arolygwyr, staff yr ysgol, rhieni a disgyblion.
- Rhoddwyd dysgu o bell ar waith i bob disgybl yn ystod y cyfyngiadau a darparwyd ystod eang o adnoddau dal i fyny.
- Sefydlodd y Cyngor Hyb Gofal Plant yn ystod camau cynnar y pandemig i gefnogi'r plant hynny a'u teuluoedd oedd angen gofal, gyda 1,294 o sesiynau'n cael eu cynnal.
- Mewn ymateb i amseroedd aros hir i gael cymorth iechyd meddwl, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cefnogi elusen ieuenctid leol i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl hygyrch i bobl ifanc yn y sir.
- Wedi gweithio gyda'r 3ydd sector a busnesau preifat i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith i unigolion/grwpiau bregus.
- Cyflwyno gofal plant a ariennir ar gyfer plant 3 oed ledled y sir.
- Buddsoddwyd a darparwyd darpariaeth feithrin megis Meithrinfa Llwyn yr Eos yn Aberystwyth gwerth £900k, Meithrinfa Ysgol Cenarth gwerth £700k a chyfleuster Meithrinfa Tregaron gwerth £600k.
- Buddsoddi mewn a chyflawni gwelliannau ysgol megis adnewyddu ac ehangu i greu ysgol 3-16 yn Henry Richard, yr estyniad a'r gwelliannau yn Ysgol Gynradd Aberteifi a'r estyniad 3 llawr newydd yn Ysgol Uwchradd Aberteifi.
- Mae datblygiadau ysgolion eisoes ar y gweill gan gynnwys y £100k o waith adeiladu yn ysgol uwchradd Penglais, darparu cyfleusterau newydd a gwell i'r ysgol, £160k o waith adeiladu yn Ysgol Henry Richard a £5.4m o waith ar Ysgol Uwchradd Aberteifi fel rhan o gynllun Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- Ymgynghorwyr proffesiynol a chontractwyr yn cael eu penodi i ddarparu ysgol ardal newydd £11.5m yn Nyffryn Aeron, a'r estyniad newydd gwerth £5.4m yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth.
- Penodi ymgynghorwyr i gwmpasu gwaith gwerth tua £1m i Amgueddfa Aberystwyth.
- Rhaglen 2 flynedd o fuddsoddiadau gwerth £500,000 fel rhan o Raglen Arfor i gefnogi a chryfhau'r cysylltiadau rhwng twf economaidd a'r Gymraeg.
- Gweithio'n rhagweithiol gyda Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru) a "Gr�p Gorchwyl a Gorffen Enwau Lleoedd Hanesyddol" Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.
- Datblygu cynllun prentisiaeth yng nghartrefi gofal yr Awdurdod Lleol yng Ngheredigion.
- Mae darpariaeth ddigidol wedi galluogi Cered (menter Gymraeg) i barhau i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn cymunedau er gwaethaf COVID-19. Postiwyd rhaglen wythnosol o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys prosiectau ymgysylltu newydd ac arloesol fel darllediadau Theatr Soffa, Hwyl i Blant a Cefn y Rhwyd ar y cyd â Radio Aber.
- Mae Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi wedi'i chyhoeddi i helpu i liniaru effaith COVID-19 a'r argyfwng costau byw ar y bobl fwyaf agored i niwed yng Ngheredigion.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion a'i bartneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn parhau i weithio'n rhagweithiol i liniaru achosion ac effeithiau tlodi yng Ngheredigion.
- Cefnogi 5,502 o aelwydydd ac unigolion gyda'u Treth Cyngor drwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, sef budd-dal i helpu pobl sydd ar incwm isel neu'n hawlio budd-daliadau penodol i dalu rhywfaint neu'r cyfan o'u bil Treth y Cyngor.
- Gwnaed 453 o Daliadau Tai Dewisol i breswylwyr yn ystod 2021/22 a oedd yn wynebu diffyg o ran talu eu costau tai.
- Parhaodd 42 o ddisgyblion i dderbyn trochi iaith trwy'r Ganolfan Iaith rhithiol.
- Parhaodd 600 o ddisgyblion i dderbyn gwersi cerddoriaeth offerynnol yn ystod y pandemig.
- Cyflwynodd Theatr Felinfach sawl rhaglen gelfyddydol ddigidol drwy gydol y cyfnod clo, e.e. Ed holden (Mr Phormula) Sesiynau bît bocs, gwersi dawnsio, pantomeim digidol a sawl sesiwn llawn dychymyg i blant o bob oed.
- Sicrhawyd bod adnoddau e-lyfrgell ar gael yn ehangach yn ystod y pandemig, ac adleolwyd faniau llyfrgell y Cyngor i ddarparu pecynnau gofal ar draws y Sir.
- Cefnogodd Tîm Pobl Actif Ifanc Ceredigion, bobl ifanc yn ystod y pandemig drwy ddarparu sesiynau rhithiol - cynhyrchwyd 110 o fideos gyda'r nod o gael pobl ifanc yn eu harddegau, disgyblion oed ysgol gynradd a phlant bach cyn-ysgol i fod yn actif yn ystod yr amser pan oeddent gartref.

### Asesiad Cyffredinol o'r Daith Hyd Yma

Mae cynnydd wrth fodloni'r flaenoriaeth hon yn Dda ac mae'r rhagolygon gwella yn Dda. Mae'r amcanion i gefnogi dysgwyr i ddychwelyd yn ddiogel i addysg, gan amddiffyn pobl rhag tlodi a hyrwyddo diwylliant bywiog Ceredigion ar y trywydd iawn.

Er gwaethaf yr heriau o ran darparu gwasanaethau yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd Ceredigion yn gallu darparu gwersi rhithwir a chymorth i ddysgwyr, cynnal sesiynau rhithwir yn hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol gyfoethog Ceredigion, a bwrw ymlaen â chefnogi dinasyddion yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig ac yn fwy diweddar yr argyfwng costau byw.

Er enghraifft, mae'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi yn cael ei rhoi ar waith drwy Is-gr�p Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

**Hirdymor**

- Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ceredigion yn strategaeth 10 mlynedd i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a gweithio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru erbyn 2050.
- Rhagwelir y bydd yr adferiad o'r pandemig yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi yn cymryd agwedd hirdymor
- Mae gwelliannau i ysgolion yn darparu cyfleusterau gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o ddysgwyr

**Atal**

- Mae cefnogi pob dysgwr yn helpu i roi gwell cyfleoedd dysgu a gyrfa iddynt
- Bydd gweithio i godi lefelau incwm ar draws y Sir yn helpu i atal tlodi mewn gwaith
- Mae cefnogi pobl trwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor neu Daliadau Tai Dewisol yn elfennau allweddol o gymorth ariannol i aelwydydd drwy'r argyfwng costau byw ac i atal eu sefyllfa rhag gwaethygu.

**Cydweithio**

- Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid drwy Is-gr?p Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi ar draws y Sir.
- Gweithio gyda'r Trydydd Sector i ddarparu cymorth iechyd meddwl i bobl ifanc yn dilyn pandemig COVID-19

**Cynnwys**

- Mae cefnogi Cyngor Ieuenctid Ceredigion fel fforwm i blant a phobl ifanc yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc ledled Ceredigion yn cael eu clywed

**Integreiddio**

- Mae gwell sgiliau a swyddi yn cynyddu lefelau incwm ac felly'n galluogi'r economi leol i dyfu
- Mae Rhaglen Arfor i gefnogi a chryfhau'r cysylltiadau rhwng twf economaidd a'r Gymraeg hefyd yn cryfhau pob un o'r pedair piler llesiant (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol)

## UCHAFU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

**Mae cefnogi dysgwyr o bob oed a chefndir i ddychwelyd yn ddiogel i addysg a hyfforddiant a gwella mynediad at ddysgu a chyflogaeth, amddiffyn pobl rhag tlodi a hyrwyddo a hwyluso diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion yn cefnogi pob un o'r Nodau Llesiant Cenedlaethol** - Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru Iachach, Cymru o Gymunedau Cydlynus, Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu, a Chymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

**£5.8m**
arian wedi ei warantu i ailwampio ac adeiladu estyniad yn Ysgol Uwchradd Aberteifi

**SAFON AUR**
a ddyfarnwyd i amryw o ysgolion lleol yn y Siarter Iaith Gymraeg, gan gynnwys Ysgol Gynradd Llanilar a Dyffryn Cledlyn

**42**
roedd disgyblion yn parhau i dderbyn trochi iaith trwy'r Ganolfan Iaith rithiol

**600**
O bobl ifanc a theuluoedd wedi eu cefnogi drwy 3,000 o alwadau

**110**
Fideo Pobl Ifanc Egnïol wedi eu cyhoeddi yn ystod y cyfnod clo

**50+**
Grwpiau a rhaglenni magu plant yn cael eu darparu'n rhithiol

**1,000+**
Cyfrifiadur, tabled a dyfeisiau MIFI wedi'i dosbarthu er mwyn i ddisgyblion cael mynediad at ddysgu o bell

**453**
Taliadau Tai Dewisol a wnaed i breswylwyr yn 2021/22 a oedd yn wynebu diffyg o ran talu eu costau tai

**£131,000**
O gyllid wedi derbyn i Amgueddfa Ceredigion

**2,400**
O fynychwyr i ŵyl ddigidol Gŵyl yr Enfys

# AMCANION LLESIANT:

## 5) Cefnogi dinasyddion sydd wedi cael ei effeithio yn anghymesur gan COVID-19 i wella eu lles corfforol ac emosiynol

## 6) Hyrwyddo lles unigolion a chymunedau mewn cartrefi diogel a hygyrch

## Cynnydd a Wnaed

- Mae Ceredigion wedi ymateb i'r heriau o ran darparu gofal cymdeithasol drwy symud tuag at gyfuno'r gwasanaeth plant ac oedolion a oedd ar wahân yn flaenorol, yn un Gwasanaeth Gydol Oed a Llesiant. Mae hyn yn dileu rhwystrau adrannol, yn darparu gwasanaeth gydol oes fwy cyson i ddefnyddwyr ac yn cynnal sgiliau generig a hyblygrwydd staff.
- Mae'r gwasanaeth gofal cymdeithasol sydd wedi'i drawsnewid yn canolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar i helpu cysylltu pobl i'r cymunedau a'r cyfleusterau o'u cwmpas, adeiladu gwydnwch unigol a theuluol ac atal problemau rhag gwaethygu fel bod angen gwasanaethau lefel uwch.
- Fel rhan o'i waith atal, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn rhoi cydnabyddiaeth a chefnogaeth lawn i rôl gofalwyr, yn enwedig trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer seibiant, gan ganiatáu i ofalwyr gael seibiant o'r hyn a all fod yn rôl heriol 24/7.
- Gan weithio gyda Chymdeithas Tai Wales and West, rydym wedi hwyluso datblygiad arloesol Tai Gofal Ychwanegol Maes y Môr yn Nhrefechan sy'n helpu pobl fregus i barhau i fyw'n annibynnol yn ôl lefel y gofal sydd angen ar yr unigolyn.
- Cwblhau Cyfleuster Cymorth Cymunedol gwerth £100k Canolfan Steffan yn Llanbedr Pont Steffan, a chyflawni'r gwaith adnewyddu gwerth £150k yng Nghanolfan Ddydd Canolfan Padarn yn Aberystwyth.
- Mae trefniadau comisiynu ar gyfer y ddarpariaeth breswyl newydd i Blant Cymhleth wedi cychwyn.
- Gwneud y mwyaf o Grant Cyfleusterau i'r Anabl a Chyllid cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addasiadau i gartrefi, er mwyn galluogi pobl i aros yn eu cymunedau.
- Fel yr awdurdod lleol Cymraeg cyntaf i wirfoddoli i groesawu ffoaduriaid o Syria, mae Ceredigion wedi croesawu ac integreiddio 74 ffoadur i'r sir. Mae'r rhaglenni adsefydlu pobl sydd wedi'u dadleoli yn mynd yn dda.
- Defnyddio Grant Tai Cymdeithasol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu Tai Fforddiadwy y mae mawr eu hangen i'w rhentu.
- Dyrannu Tai Cymdeithasol drwy'r Gofrestr Tai Cyffredin, gan ganiatáu 5 ardal i ymgeiswyr gan roi mwy o ddewis iddynt o ran lle y maent hwy a'u teulu yn dymuno byw.
- Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2020-2024 wedi'i gyhoeddi i sicrhau bod gan drigolion a rhanddeiliaid Ceredigion lais i ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau a strategaethau a fydd yn effeithio ar eu bywydau.
- Mae Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus wedi'u hadnewyddu ar gyfer Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth i ymdrin â phroblemau mewn ardal sy'n achosi niwed i ansawdd bywyd y gymuned leol.
- Ailfywiogi gwaith Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a chyflwyno Protocol Sbardun Cymunedol ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion.
- Cyflwyno cyfarfodydd monitro tensiwn wythnosol aml-asiantaeth i fynd i'r afael â thensiynau cymunedol arwyddion cynnar trwy ymyrraeth gynnar/gwaith ataliol ar sail partneriaeth.
- Wedi'i roi ar waith gyda sefydliadau partner, cynlluniau peilot seiliedig ar le yn Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth i fynd i'r afael â lles mewn cymunedau yn seiliedig ar angen.
- Cafodd tua 2,900 o drigolion, o bobl ifanc i deuluoedd i ofalwyr, eu cefnogi yn ystod y pandemig trwy alwadau 'Cadw mewn Cysylltiad' rheolaidd gan staff y Cyngor ym Mhorth Cymorth Cynnar i wirio eu llesiant a rhoi cyfle i siarad â rhywun yn ystod y cyfnodau clo.
- Ceredigion oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth olrhain cyswllt ac fe'i dewiswyd wedyn fel ardal beilot gan Lywodraeth Cymru, cyn sefydlu'r cynllun cenedlaethol.
- Cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda drwy sefydlu dau ysbyty maes dros dro mewn ymateb i COVID-19.
- Ym mis Gorffennaf 2020, lansiodd Ceredigion ei hymgyrch Cysylltu â Charedigrwydd, i greu mwy o ddealltwriaeth am fudd ac effaith caredigrwydd i ni ein hunain ac i eraill yn ein cymuned. Mae'r ymgyrch yn meithrin cysylltiadau i leddfu unigrwydd ac arwahanrwydd sy'n gyffredin mewn llawer o'n cymunedau.
- Symud ymlaen â chynlluniau i greu Canolfan Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan, a datblygu cynlluniau i greu Canolfannau Llesiant yng Ngogledd a De'r sir hefyd.
- Mae gwasanaeth Porth y Gymuned yn cynorthwyo trigolion o bob oed yng Ngheredigion, drwy eu helpu i wneud cysylltiadau i gael mynediad at gyfleoedd cymorth yn eu hardal a allai gynnal a gwella eu lles. Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn arbennig o bwysig wrth gefnogi ein preswylwyr yn ystod pandemig COVID-19.
- Gosodwyd cyfleusterau fideo-gynadledda ym mhob un o'n cartrefi gofal i sicrhau cyswllt ag aelodau'r teulu yn ystod y cyfyngiadau cenedlaethol.
- Llwyddwyd i atal 96 o aelwydydd rhag digartrefedd yn ystod 2021/22
- Cyflwynodd Tîm Cam Nesa Ceredigion becynnau llesiant i gefnogi pobl ifanc a brofodd unigrwydd, unigedd neu wendidau eraill yn ystod y pandemig.

### Asesiad Cyffredinol o'r Daith Hyd Yma

Mae cynnydd wrth fodloni'r amcan hwn yn Dda ac mae'r rhagolygon gwella yn Dda. Er gwaethaf yr heriau o ran cefnogi dinasyddion a gafodd eu heffeithio yn anghymesur gan COVID -19 a hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau mewn cartrefi diogel a hygyrch, aseswyd bod y ddau yn wyrdd ac ar darged.

Mae llawer o enghreifftiau o sut mae'r Cyngor wedi gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid i gydlynu ymateb effeithiol drwy'r pandemig.

Mae'r Rhaglen Gydol Oed sy'n trawsnewid y modd y darperir gofal cymdeithasol yn y Sir yn enghraifft o sut mae Ceredigion yn arwain y ffordd i ddarparu Gwasanaethau Integredig nawr ac yn y dyfodol.

## DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

**Hirdymor**

- Mae Model Gydol Oed yn ymwneud â chynllunio hirdymor i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y 15 mlynedd + nesaf
- Mae Tueddiadau'r Dyfodol, megis newid demograffig wedi'u defnyddio yn y Model
- Rhagwelir y bydd yr adferiad o'r pandemig yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i wella llesiant corfforol a meddyliol yn cymryd agwedd hirdymor at gefnogaeth i ymateb

**Atal**

- Mae'r Model Gydol Oed yn darparu dull cydgysylltiedig o ymdrin â gofal cymdeithasol er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, a chaniatáu i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Mae atal digartrefedd a hyrwyddo annibyniaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor a dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â digartrefedd
- Mae Datblygu'r Canolfannau Llesiant yn cefnogi'r uchelgais i greu cymunedau iach

**Cydweithio**

- Mae'r Bwrdd Iechyd, y Cyngor a phartneriaid y Trydydd Sector yn cydweithio i roi rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar waith ar draws gorllewin Cymru
- Cydweithio effeithiol gyda'r Bwrdd Iechyd wrth ymateb i'r pandemig megis sefydlu'r ddau ysbyty maes a'r Canolfannau Brechu

**Cynnwys**

- Mae'r sectorau cyhoeddus a phreifat wedi bod yn gysylltiedig â datblygu'r Model Gydol Oed
- Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn sicrhau bod ein gweithredoedd yn deg ac yn gynhwysol i bawb
- Nodwyd pobl iau fel un o'r grwpiau yr effeithiwyd arnynt yn anghymesur gan y pandemig yng Ngheredigion, ac o ganlyniad rhoddwyd ystod o gymorth penodol ar waith.

**Integreiddio**

- Cydweithio cyhoeddus a phreifat i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at Gymru iachach a nodau eraill
- Mae cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol pobl yn effeithio ar bob un o'r Nodau Llesiant cenedlaethol ac yn helpu i adeiladu cymunedau cryfach a mwy gwydn

### UCHAFU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

**Mae cefnogi dinasyddion y mae COVID-19 wedi effeithio'n anghymesur arnynt i wella eu llesiant corfforol ac emosiynol a hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau mewn cartrefi diogel a hygyrch yn cefnogi'r holl Nodau Llesiant Cenedlaethol -** Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru Iachach, Cymru o Gymunedau Cydlynus, Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu, a Chymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

**35,000**
O ddeunyddiau wedi postio allan i gefnogi'r Rhaglen Brechu yng Ngheredigion

**11.4m**
Eitemau o Offer Amddiffynnol Personol wedi'i dosbarthu

**160**
Datganiad i'r wasg gyda newyddion a chyngor am COVID-19

**7,400**
Person wedi'i chyfeirio at olrhain cyswllt i helpu pawb i gadw'n ddiogel

**1,040**
Te prynhawn Cymraeg / 'seibiant mewn bocs' wedi dosbarthu

**195**
O fagiau Teulu Actif wedi'i dosbarthu gan wasanaethau Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn gyntaf

**100+**
O gardiau hunaniaeth gofalwyr a 10 cerdyn gofalwyr ifanc wedi cynhyrchu

**50,000**
O ymrwymiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn, i roi'r wybodaeth fwyaf diweddar i bobl

**15,000+**
o barseli bwyd wedi dosbarthu i breswylwyr sy'n agored i niwed yn feddygol yn ystod pandemig

**1,650**
Pecynnau llesiant wedi'u cynhyrchu ar gyfer gofalwyr di-dâl ac oedolion ynysig

# AMCANION LLESIANT:

## 7) Cefnogi teithio llesol, dulliau eraill o deithio a ffyrdd o weithio sy’n adeiladu ar ein huchelgais di-garbon

## 8) Cefnogi ein cymunedau i fod yn gryf gyda chysylltiadau da fel eu bod yn gallu ffynnu er gwaethaf COVID-19

## Cynnydd a Wnaed

- Blaenoriaethu newid hinsawdd a lleihau carbon. Ers 2007 mae'r Cyngor wedi cynnal cyfres o dri Chynllun Rheoli Carbon 5 mlynedd. Ers cychwyn y cynllun cyntaf, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi lleihau ei allyriadau carbon gan 61%.
- Yn 2020, datganodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd ac ymrwymodd y Cyngor i gyflawni Net Carbon Sero erbyn 2030.
- Datblygu’r adeilad di-garbon net cyntaf ar stad y Cyngor gyda’r bloc meithrin newydd yn Ysgol Llwyn yr Eos ym Mhenparcau.
- Gosod 70kw o gelloedd ffotofoltaig ar do Ysgol Bro Teifi, gan gynhyrchu 160kw yr awr o drydan glân.
- Yn ogystal rydym wedi gosod 22kw o gelloedd ffoto-ffotaidd ar Ysgol Bro Pedr yn Llanbedr Pont Steffan, 10kw ar Ysgol Henry Richard yn Nhregaron a 10kw arall ar Ysgol Comins Coch.
- Gosod cannoedd o fylbiau LED yn ein goleuadau stryd o amgylch y sir, gan arwain at arbediad o dros £2 filiwn.
- Rydym wedi cychwyn adolygiad o ddatgarboneiddio ein cerbydau fflyd.
- Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae Ceredigion wedi cyflawni un o'r cyfraddau ailgylchu uchaf yng Nghymru a'r DU ac mae ar hyn o bryd ar 70%. Mae hyn wedi osgoi 9,000 tunnell o allyriadau carbon ac wedi arbed tua £2 filiwn o gymharu â gwaredu traddodiadol. Rydym yn casglu digon o wastraff bwyd mewn blwyddyn i bweru 300 o gartrefi.
- Cyflwyno casgliad ailgylchu gwydr o ymyl y ffordd.
- Mae prosiect Caron Cosy y Cyngor wedi sicrhau bod cartrefi llawer o drigolion lleol yn ynni-effeithlon ac yn gynnes. Mae’r rhaglen wedi darparu gwres canolog ac inswleiddio ar gyfer 137 o gartrefi nad oedd yn ynni-effeithlon yn flaenorol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle nad yw’r rhwydwaith nwy yn cyrraedd.
- Mae’r Cyngor wedi cyflwyno mentrau Effeithlonrwydd Ynni sy’n darparu mesurau effeithlonrwydd a chyngor yng nghartrefi pobl.
- Cyflawni gwelliannau seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus ar hyd coridor TrawsCymru drwy Gyllid Trafnidiaeth Leol.
- Mae Swyddog Datblygu Trefi wedi’i gyflogi i ymgysylltu â chynrychiolwyr trefi i helpu i hwyluso a chefnogi syniadau i adfywio trefi gwledig Ceredigion. Darperir hyn gyda chymorth cyllid Leader drwy raglen Cynnal y Cardi.
- £379k o gyllid wedi’i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i gefnogi amrywiaeth o brosiectau i ddod ag asedau canol trefi i ddefnydd economaidd ac i wella seilwaith gwyrdd yng nghanol trefi.
- Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Carbon Net Sero newydd ar gyfer Cyngor Ceredigion yn nodi ei ymateb i’r argyfwng hinsawdd ar gyfer y sir gyfan, ac yn egluro pam fod angen i ni gymryd y camau hyn a pham mae targed 2030 mor bwysig i fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd.
- Wedi cyflawni nifer o welliannau Teithio Llesol, gan gynnwys gwaith adnewyddu mawr ar Bont-yr-Odyn, Trefechan ac adeiladu llwybr defnydd a rennir rhwng Gogerddan a Phenrhyn-coch.
- Sefydlwyd panel aml-asiantaeth i sicrhau bod lleoliadau cymunedol ar draws Ceredigion yn cael eu hailagor yn ddiogel ac yn gymesur wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi. Y nod yw cefnogi a rhoi cyngor i grwpiau cymunedol sy’n paratoi i ailagor drwy ddarparu cyfres o sesiynau briffio ar gyfer unigolion, grwpiau neu sefydliadau sy’n gyfrifol am ganolfannau cymunedol amlbwrpas sy’n canolbwyntio ar adeiladau, pobl a gweithgareddau. Mae'r panel hefyd wedi creu pecyn adnoddau i helpu i ailagor lleoliadau cymunedol yn ddiogel.
- Llwyddwyd i ddarparu gwasanaethau rheng flaen craidd yn ddiogel yn ystod pandemig COVID-19 a pharhau i ymateb i faterion newidiol a achosir gan y pandemig.
- Cefnogir Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol ac ymateb gweithredol corfforaethol ehangach sydd wedi ymestyn o ddosbarthu blychau bwyd i grwpiau agored i niwed i gymorth logistaidd wrth ddosbarthu deunyddiau i ysgolion, gan ddarparu cymorth gweithredol i sefydlu canolfannau profi torfol a brechu.
- Cefnogi cyflenwyr lleol trwy gydol y pandemig yn ystod y cyfnod o leihau neu ohirio gwasanaethau gwastraff a chludiant.
- Mae lobïo sylweddol gan Gyngor Sir Ceredigion ac eraill wedi arwain at ddarpariaeth o 29.5% o fand eang ffeibr llawn gan roi gallu dros 100 Mbps. Mae'r lawrlwythiad cyfartalog ar gyfer y sir gyfan o 54mbps ar hyn o bryd yn un o'r lefelau uchaf ar gyfer awdurdod lleol gwledig. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae’r ddarpariaeth Ffibr i’r eiddo (FTTP) wedi cynyddu o 20% i 28.3%, ac ar gyfer Band Eang Cyflym Iawn (>30Mbps) o 80.6% i 86.3% ar gyfer 30Mbps neu fwy.

### Asesiad Cyffredinol o’r Daith Hyd Yma

Mae cynnydd wrth fodloni'r amcan hwn yn Dda ac mae'r rhagolygon gwella yn Dda. Mae’r holl gamau i leihau ein hallyriadau carbon, gwella’r ddarpariaeth teithio llesol a chreu cymunedau sydd wedi’u cysylltu’n dda ar y trywydd iawn, a bwriedir gwneud gwelliannau pellach yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor yn enghraifft o Geredigion yn gwthio ymlaen i leihau ein hôl troed carbon, gan leihau ein cyfraniad at newid hinsawdd a chyflawni ein huchelgais o fod yn gyngor carbon net sero erbyn 2030.

## DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

**Hirdymor**

- Bydd cynllunio hirdymor i leihau allyriadau carbon yn helpu i ddiogelu ein tirwedd hardd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Defnyddiwyd dadansoddiad Tueddiadau'r Dyfodol i ddatblygu Cynllun Rheoli Carbon 5 Mlynedd y Cyngor

**Atal**

- Mae'r amcan cyntaf yn canolbwyntio ar atal effaith pellach ar yr amgylchedd, yn enwedig lleihau allyriadau carbon, ond hefyd yr effaith ar fioamrywiaeth ar draws y Sir
- Mae teithio llesol yn rhan allweddol o strategaeth Ceredigion i wella iechyd a llesiant, ac felly atal problemau sy'n ymwneud ag iechyd yn y dyfodol.
- Mae bod yn gysylltiedig wedi dod i'r amlwg dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a bydd buddsoddi mewn cysylltedd yn helpu i greu cymunedau cryfach a mwy gwydn.

**Cydweithio**

- Bydd gweithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid yn helpu i sicrhau dull cydgysylltiedig o leihau effaith newid yn yr hinsawdd a'n bod i gyd yn canolbwyntio ar fathau mwy cynaliadwy o ynni yn y dyfodol.
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, er enghraifft, i ddatblygu Prosiect Gwresogi Ardal Penglais lle bydd pob sefydliad sector cyhoeddus yn yr ardal yn gallu manteisio ar ynni gwyrdd.

**Cynnwys**

- Mae pawb yn cymryd rhan ac yn cael eu hannog i wneud dewisiadau a fydd yn lleihau costau nawr ac yn gwarchod yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol

**Integreiddio**

- Mae datgarboneiddio, gwella iechyd y Sir trwy annog teithio llesol, a gwella cysylltedd yn dod â buddion clir ar gyfer cynyddu ein cyfraniad i bob un o'r nodau llesiant

### UCHAFU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

**Mae cefnogi teithio llesol, dulliau trafnidiaeth eraill a ffyrdd o weithio sy'n adeiladu ar ein huchelgais di-garbon a chefnogi ein cymunedau i fod yn gryf ac wedi'u cysylltu'n dda fel eu bod yn gallu ffynnu er gwaethaf COVID-19 yn cefnogi pob un o'r Nodau Llesiant Cenedlaethol** - Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth, Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru Iachach, Cymru o Gymunedau Cydlynus, Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu, a Chymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

**70.2%**
o wastraff wedi'i ailgylchu, compostio neu ailddefnyddio

**29,271**
tunnell o wastraff trefol caled wedi'i chasglu

**2.53**
diwrnod ar gyfartaledd i glirio tomenni anghyfreithlon ledled y Sir

**61%**
o ostyngiad mewn allyriadau carbon ers 2007, sy'n arbed £6m i'w ail-fuddsoddi

**£5m+**
Wedi buddsoddi mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon, gan arbed £2.8m hyd yma

**£23m**
yn cael ei wario ar gynlluniau amddiffyn yr arfordir yn Aberaeron ac Aberystwyth

**2**
Gwobr Effeithlonrwydd Ynni Rhanbarthol i gydnabod y gwaith o helpu perchnogion tai i leihau eu biliau ynni, mynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon

**28.3%**
O gynnydd i ddarpariaeth band eang Ffibr i'r Adeilad (FTTP) o 20%, oherwydd buddsoddiad mewn cysylltedd digidol dros y ddwy flynedd ddiwethaf

# CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gydweithio i greu Cymru gynaliadwy. Ei bwriad yw helpu i greu Cymru yr ydym ni eisiau byw ynddo, nawr ac yn y dyfodol. Mae 7 nod llesiant cenedlaethol sy'n nodi gweledigaeth a rennir i bob corff cyhoeddus weithio tuag at (dangosir ar y dde).

Gwyddom ein bod yn wynebu heriau yng Ngheredigion - mae pandemig COVID-19 wedi bod yn ddigynsail o ran ei effaith ar bob cefndir, ond yn fwy diweddar mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar lawer o aelwydydd yn y Sir. Mae rhai o'r materion hyn wedi'u gwaethygu gan y pandemig ac wedi dod i'r amlwg fel fforddiadwyedd tai, tra bod eraill yn parhau i fod yn her gyson fel mynd i'r afael a thlodi.

Mae hefyd angen tyfu'r economi leol a chreu cyfleoedd i bobl leol aros a ffynnu yn eu cymunedau lleol. Bydd demograffeg newidiol y Sir tuag at boblogaeth sy'n heneiddio ac allfudiad o bobl iau yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar draws y pedwar piler llesiant.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cydweithio â'i bartneriaid lleol a rhanbarthol i fynd i'r afael â'r materion cymhleth hyn i greu'r Ceredigion yr ydym ei heisiau. Rhai enghreifftiau yw Bargen Twf Canolbarth Cymru yn ysgogi cyllid sylweddol ar gyfer adfywio ar draws y rhanbarth, yr ymateb cydgysylltiedig i bandemig COVID-19 gydag amrywiaeth o bartneriaid ar draws y Sir, ac Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth fynd i'r afael ag effaith Tlodi ar draws y sir.

Roedd Amcanion Llesiant 2021/22 y Cyngor yn canolbwyntio ar yr ymateb uniongyrchol i pandemig COVID-19 ac yn cefnogi'r adferiad tymor hwy. Fe'u gosodwyd yn seiliedig ar dystiolaeth o anghenion lleol ac ar farn pobl leol. Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau i bennu'r anghenion hyn gan gynnwys Asesiad diwethaf Ceredigion o Lesiant Lleol a'r Cynllun Llesiant Lleol.

Bydd yr Amcanion Llesiant yn ein helpu i wella canlyniadau i bobl leol a hefyd yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at y Nodau Llesiant cenedlaethol.

Rydym yn monitro ac yn adolygu cynnydd tuag at gyflawni'r Amcanion yn rheolaidd ac yn cynhyrchu Adroddiad Hunanasesu blynyddol lle rydym yn cyfleu cynnydd.


Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn dod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus y Sir a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghyd, i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Sir drwy gryfhau cydweithio ar draws gwasanaethau'r Sir.

Fel y Cyngor, datblygwyd ei flaenoriaethau gan ddefnyddio tystiolaeth ac adborth ymgysylltu o ffynonellau allweddol megis yr Asesiad o Lesiant Lleol.

Mae hyn yn sicrhau bod Amcanion Llesiant Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi'u halinio i ganolbwyntio ar anghenion blaenoriaeth y Sir, a chynyddu'r cyfraniad at y Nodau Llesiant cenedlaethol.

Mae themâu cyffredin fel mynd i'r afael a thlodi, cyfrifoldeb amgylcheddol, creu cyfleoedd a darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i gyd yn cyd-fynd yn agos ac yn caniatáu i ni ddarparu ymateb cydgysylltiedig a rennir i wella llesiant. Mae'r tabl trosodd yn dangos sut mae Amcanion Llesiant Ceredigion yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant cenedlaethol.

## Y 7 NOD LLESIANT CENEDLAETHOL




**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi 7 Nod Llesiant ar waith.**

**Mae'r Ddeddf yn rhoi'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i ni wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.**

**Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio yn well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.**

| ▼ Nod Llesiant | Sut mae Amcanion Llesiant y Cyngor yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol ▼ |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Mae ein holl Amcanion Llesiant yn adlewyrchu'r pwysigrwydd o ddatblygu economi leol Ceredigion. Bydd galluogi cyflogaeth, datblygu sgiliau, darparu tai fforddiadwy, amddiffyn yr amgylchedd, cefnogi busnesau a buddsoddi mewn adfywio i gyd yn cyfrannu tuag at y nod cenedlaethol o Gymru lewyrchus. Bydd cefnogi busnesau i ymateb i effeithiau Covid-19 yn helpu'r ymateb ar unwaith a'r ymateb yn y tymor hir wrth i ni edrych i gynyddu tyfiant economaidd, creu mwy o swyddi a swyddi tal gwell ac i gefnogi'r gweithlu trwy ddarparu cyfleoedd i ddysgu. |
| **Cymru gydnerth** | Bydd cyflwyno ein huchelgais o fod yn garbon net sero, cynyddu cyfleoedd i deithio llesol a sicrhau bod cymunedau wedi'i chysylltu yn dda yn helpu amddiffyn ein hamgylchedd naturiol ac yn creu cymunedau cryf a gydnerth. Mae hyn yn cyfrannu tuag at y nod llesiant cenedlaethol o greu Cymru gydnerth trwy leihau ein heffeithiau ar yr amgylchedd a gwella ein gallu i addasu i newid. |
| **Cymru iachach** | Mae cefnogi dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant, amddiffyn pobl rhag tlodi, a hybu bywydau iachach a mwy llesol yn ceisio adeiladau Ceredigion a Chymru iachach. Mae hyn hefyd yn galluogi byw annibynnol ac yn darparu ymyrraeth gynnar a gwasanaethau atal i'r rhai sy'n agored i niwed. Bydd cefnogi dinasyddion sydd wedi'i effeithion anghymesur gan COVID-19 i wella ei llesiant ffisegol ac emosiynol yn cefnogi mentrau arall i ddarparu Cymru iachach. |
| **Cymru sy'n fwy cyfar-tal** | Mae pob un o'n Hamcanion Llesiant yn ceisio sefydlu Cymru fwy Cyfartal drwy sicrhau cyfle cyfartal i bawb mewn cyflogaeth, tai, addysg, ffyrdd iach-ach o fyw a chymunedau cynaliadwy. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Mae adeiladu cryfder ein cymunedau yn nodwedd allweddol yn ein Hamcanion Llesiant. Bydd darparu cefnogaeth i'n cymunedau fod yn gryf ac wedi'u cysylltu'n dda fel eu bod yn gallu ffynnu er gwaethaf Covid-19 yn gwella Cymru o gymunedau cydlynol. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion. Amlygwyd piler diwylliannol Llesiant fel un sy'n arbennig o bwysig i Ddinasyddion yn Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion, ac mae mesurau pellach i hyrwyddo dwyieithrwydd a'r Iaith Gymraeg yn eu lle. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Wrth ystyried ein Hamcanion Llesiant, rydym wedi ystyried Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion a gweithgarwch ymgysylltu er mwyn sicrhau y gallwn wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. Mae cymorth ar gyfer teithio llesol, dulliau eraill o deithio a ffyrdd newydd o weithio sy'n adeiladu ar ein huchelgais di-garbon yn parhau â'n gwaith yn y maes hwn. |

# YR EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY

| | Ffyrdd o Weithio | Sut mae'r Cyngor wedi dangos yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy |
|---|---|---|
| | **Hirdymor**<br>Edrych i'r tymor hir fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu anghenion eu hunain | • Mae Cynllunio Ariannol Tymor Canolig yn sicrhau bod penderfyniadau yn ystyried yr effaith ar cenedlaethau'r dyfodol.<br>• Mae cynllunio'r gweithlu yn sicrhau datblygiad sgiliau'r gweithlu ar gyfer y dyfodol.<br>• Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn ceisio datblygu a gwella llesiant cymdeithasol, economi, amgylcheddol a diwylliannol Ceredigion dros y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt. |
| | **Integreiddio**<br>Cymryd ymagwedd integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu Hamcanion llesiant | • Mae Blaenoriaethau ac Amcanion Llesiant y Cyngor yn gydgysylltiedig mewn nifer o ffyrdd a bydd gwasanaethau yn parhau i gydweithio er mwyn gweithio tuag at gyflawni set gyffredin o nodau llesiant. |
| | **Cynnwys**<br>Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y pen-derfyniadau sy'n effeithio arnynt | • Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2017-2022 wedi ystyried Asesiad o Lesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhyrchwyd yn dilyn cyfres o ymarferion ymgysylltu â dinasyddion, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig, fel y diffinnir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.<br>• Bydd y Cyngor yn ymgynghori'n flynyddol â dinasyddion a'i grwpiau ymgysylltu er mwyn adolygu a gosod ei Amcanion Llesiant blynyddol. |
| | **Cydweithio**<br>Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir | Mae'r cyngor yn cefnogi'r partneriaethau canlynol, ynghyd ac eraill;<br>• Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.<br>• Bwrdd Diogelu Plant.<br>• Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.<br>Mae cydweithio wrth ddarparu gwasanaethau hefyd yn cael i'w chroesawu trwy'r Awdurdod. |
| | **Atal**<br>Deall achosion sylfaenol problemau i'w hatal rhag digwydd | • Mae Amcanion Llesiant y Cyngor wedi'u pennu er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael ag effeithiau tlodi, materion gwledigrwydd a gwella llesiant pobl o bob oed, o'r blynyddoedd cynnar hyd at oedran hŷn.<br>• Mae digartrefedd yn canolbwyntio ar yr agenda atal.<br>• Mae'r model Gwasanaethau Cymdeithasol yn hyrwyddo ymyrraeth gynnar ac atal. |

# AMCANION LLESIANT NEWYDD AR GYFER 2022/23

Mae Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 yn esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei bedwar Amcan Llesiant Corfforaethol neu Flaenoriaethau Strategol.

Prif bwrpas Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yw darlunio sut y bydd yr Awdurdod yn cefnogi ac yn hybu cynaliadwyedd a llesiant dinasyddion, drwy ei weledigaeth hirdymor a'i amcanion strategol.

Adolygwyd yr Amcanion Llesiant Corfforaethol yn ystod haf 2022.

Bydd yr Amcanion Llesiant Corfforaethol yn caniatáu i ni ddarparu gwasanaethau a fydd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl a chymunedau Ceredigion. Dewiswyd y rhain ar ôl ymgysylltu â'r cyhoedd, ystyried Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion a gwrando ar ddyheadau'r weinyddiaeth wleidyddol newydd.

Cam cyntaf y broses oedd cynnal dadansoddiad pen bwrdd o amrywiol ddarnau o dystiolaeth, er mwyn nodi'r prif faterion sy'n effeithio ar lesiant dinasyddion Ceredigion. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, a oedd yn darparu darlun cynhwysfawr o lesiant yn y sir, gan gynnwys gwaith ymgysylltu eang â'r cyhoedd yn ystod 2021. Trwy hyn, cawsom wybod am bryderon pobl a'r meysydd y byddent yn dymuno eu gweld yn cael eu gwella.

Ar ôl hynny, tynnwyd yr adborth ynghyd a'i ddehongli gan ystyried blaenoriaethau'r weinyddiaeth newydd dros y bum mlynedd nesaf a'i gymharu â'r Asesiad i nodi unrhyw flychau. Cynhaliwyd gweithdai gyda gwasanaethau'r Cyngor fel cam arall yn y broses ac aethpwyd ati i ddatblygu'r camau unigol y byddai angen eu cymryd i gyflawni'r Amcanion.

Mae ymgynghoriad ar y Strategaeth ddrafft a'r Amcanion Llesiant yn cael eu cynnal yn ystod hydref 2022. Yr amcanion Llesiant Corfforaethol drafft yw:

- **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth**
- **Creu cymunedau gofalgar ac iach**
- **Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu**
- **Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd**

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mlaen ein meddyliau wrth inni ddatblygu'r amcanion. Gwnaethom nodi'n benodol sut y gallem ni gyfrannu gymaint â phosibl at y Nodau Llesiant Cenedlaethol gan hefyd ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar dudalen 36 ynglŷn â'r modd yr ydym ni wedi asesu ein hamcanion gan ddefnyddio'r egwyddorion datblygu cynaliadwy hyn.

Rydym yn adolygu ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol a'n camau bob blwyddyn i sicrhau mai dyma yw'r Amcanion iawn i Geredigion a'n bod ni yn eu cyflawni nhw.

Mae'r Strategaeth yn nodi'n glir ein blaenoriaethau ac mae'n dangos ein hymrwymiad i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn y Sir.

I gael mwy o wybodaeth am yr Amcanion Llesiant Corfforaethol gwelir Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor 2022-27.

## Ein Gweledigaeth:

**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy gwerth am arian sy'n cefnogi economi gref ac amgylchedd iach wrth hyrwyddo llesiant yn ein pobl a'n cymunedau**

## Amcanion Llesiant Corfforaethol Drafft



# EIN PERFFORMIAD

## MESURIADAU ALLWEDDOL ARALL

**Mae'r Cyngor yn monitro ac yn meincnodi ei berfformiad yn rheolaidd fel rhan o'i drefniadau rheoli perfformiad parhaus. Mae perfformio meincnodi  yn cyfrannu at ein heffeithiolrwydd a'n heffeithlonrwydd cyffredinol drwy ganiatáu i ni nodi arfer gorau a chyfleoedd ar gyfer gwella.**

Oherwydd effaith pandemig COVID-19, gohiriwyd adrodd ar y Mesurau Atebolrwydd Perfformiad cenedlaethol (PAMs) am y flwyddyn 2020/21. O ganlyniad dim ond nifer fach a gasglwyd a dangosir y rhain drosodd.

Y flwyddyn gasglu lawn ddiwethaf oedd 2019/20, pan gasglwyd un ar hugain o Fesurau Atebolrwydd Perfformiad. Mae canlyniadau'r flwyddyn honno'n dangos bod y mwyafrif (14) o fesurau Ceredigion yn cyrraedd eu targed, gyda 3 pellach ychydig oddi ar y targed a 4 yn sylweddol oddi ar y targed, (gweler y siart isod ar y chwith).


O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd y mwyafrif (14) wedi dangos gwelliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, nid oedd yr un ohonynt ar yr un lefel ac roedd y 7 arall wedi gostwng, (gweler y siart isod).

Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda Data Cymru a phob un o'r 21 Awdurdod Lleol ledled y wlad i ddatblygu set well o fesurau i gynorthwyo gyda'r gwaith o feincnodi a bydd gwaith ar hyn yn parhau yn ystod 2023/24.

Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad i fonitro pa mor dda y mae ein gwasanaethau'n perfformio o ran bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaethau ac i fesur eu heffeithlonrwydd a'u gwerth am arian.

Maent yn mesur perfformiad ar draws ystod eang o wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys: rheolaeth ariannol, addysg, tai, gwasanaethau hamdden, rheoli gwastraff a glanhau strydoedd. Gosodir targedau ar gyfer pob mesur a gwneir cymariaethau gyda rhanbarth Gorllewin Cymru a'r darlun cenedlaethol.


Er enghraifft, er gwaethaf yr heriau sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd pandemig COVID-19, mae dau fesur effeithlonrwydd allweddol, sef casglu Treth y Cyngor ac ardrethi Annomestig (busnes), yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd. Mae'r Dreth Gyngor Band 'D' gyfartalog, a ddefnyddir yn aml fel cymharydd rhwng gwahanol Siroedd, yn dangos bod cyfraddau cyfredol yn gyfartal â'r cyfartaledd cenedlaethol ledled Cymru.






- Ar targed: 14 (72%)
- Oddi ar y targed (<=5%): 3 (14%)
- Oddi ar y targed (>5%): 4 (13%)




- Ar targed 14 (67%)
- Oddi ar y targed (llai na 5%): 0 (0%)
- Oddi ar y targed (mwy na 5%): 7 (33%)







# 2020/21 MESURIADAU ATEBOLRWYDD PERFFORMIAD

## Absenoldeb Salwch

Nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul gweithiwr Cyfwerth ag Amser Llawn


▼ Nifer




## Rhwystradu Digartref

% o gartrefi sydd wedi 'i rhwystro yn llwyddiannus o fod yn ddigartref


▼ Caran




## Ailgylchu

% o wastraff a gafodd i'w ail-ddefnyddio, ailgylchu neu gompostio


▼ Canran




## Prentisiaethau

Nifer y prentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth cydnabyddedig ffurfiol fesul 1,000 o weithwyr


▼ Nifer




## Tai Fforddiadwy

Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fesul 10,000 o aelwydydd


▼ Nifer




## Casgliad Gwastraff

Cilogramau o wastraff dros ben cartrefi a gynyrchwyd y pen


▼ Kgs




## Sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth

Canran y rhai sydd yn gadael blwyddyn 11 sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth (NEET)


▼ Canran





## Tipio Anghyfreithlon

Diwrnodau gweithio ar gyfartaledd mae'n cymryd i glirio achosion tipio anghyfreithlon

▼ Nifer



## Cysylltwch â Ni


**Post:**

Cyngor Sir Ceredigion

Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Ffôn :**

01545 570881


Mae Fersiwn **Testun Plaen** neu Fersiwn **Hawdd ei Ddarllen** o'r ddogfen yma ar gael o Gyngor Sir Ceredigion

**www.ceredigion.gov.uk**